# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 3 Mehefin 2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Rheoli Datblygu o bell drwy fideo cynhadledda, Dydd Mercher, 9 Mehefin 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Materion Personol**

**3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**

**4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 (Tudalennau 3 - 6)**

**5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 8)**

**6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 9 - 46)**

**7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 47 - 54)**

**8. Apeliadau (Tudalennau 55 - 66)**

**9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 19 Mai 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Odwyn Davies, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Paul Hinge, Gwyn James, Maldwyn Lewis, Lyndon Lloyd MBE, Gareth Lloyd, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Marc Davies ac Endaf Edwards

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mrs Gwennan Jenkins, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mrs Ffion Lloyd – Cyfreithiwr, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau.

(2:00pm – 5:00pm)

**1. Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Estynnwyd llongyfarchion i'r Cynghorwyr Paul Hinge ac Ifan Davies ar gael eu penodi'n Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol diweddar.

**2. Ymddiheuriadau**
Roedd y Cynghorwyr Peter Davies a Catherine Hughes wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod.

**3. Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**
Bu i'r Cynghorydd Ifan Davies ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A200449.

4. **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 yn gywir, yn ddibynnol ar nodi bod y Cyfreithiwr, Mrs Ffion Lloyd, yn bresennol yn y cyfarfod.

**Materion yn codi**
Dim.

5. **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio a ganlyn a drafodwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor ac yr oedd angen iddo eu hystyried ymhellach:-

A200449 Codi dwy annedd ar gyfer y farchnad agored gyda mynediad i gerbydau, Tir wrth ymyl Maes Wyre, Llanrhystud, Aberystwyth

**CYMERADWYO'R** cais gyda chytundeb cyfreithiol Adran 106 a fydd yn sicrhau cyfraniad ariannol o 10% o werth y datblygiad ar y farchnad agored i'w ddefnyddio tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn y sir yn unol â pholisi S05 o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion am y rhesymau a ganlyn:-

- Roedd yr Aelodau'n teimlo bod yr ymgeisydd wedi lliniaru'r problemau a godwyd yn yr adroddiad o ran Parth Llifogydd C2 drwy ddarparu mapiau wedi'u diweddaru sy'n rhoi sicrwydd na fydd unrhyw lifogydd yn y lleoliad hwn ac, o'r herwydd, dylid caniatáu'r datblygiad.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi cytuno dros dro ar Barth B.
- Roedd y lleoliad o fewn ffiniau'r pentref.
- Nid oedd yr anheddau ar y safle ymgeisio wedi'u lleoli ym Mharth Llifogydd C2 ond mewn ardal a ddynodwyd fel Parth Llifogydd B, felly roedd yr Aelodau'n tybio ei bod yn ddiogel adeiladu yn y lleoliad hwnnw.
- Pan gafwyd achos hanesyddol o lifogydd yn y pentref, dywedodd yr Aelod lleol nad oedd y llifogydd wedi effeithio ar yr ardal hon.

---

6. **Gweithdrefn**

Cytunwyd i ystyried eitem 3 ar yr agenda, cais A200945, yn gyntaf o blith y prif eitemau.

7. **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Iwan Thomas (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200945 Dymchwel y bwthyn gwreiddiol a chodi annedd yn ei le, Penrhiw Cottage, Ciliau Aeron

**CYMERADWYO'R** cais.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Roedd y cais hwn yn gyfystyr â lles cynllunio oherwydd bydd yr annedd yn cael ei lleoli ymhellach oddi wrth y ffordd
- Roedd ôl troed o 140 metr sgwâr yn dderbyniol gan mai annedd ar gyfer y farchnad agored ydoedd
- Ym marn yr Aelodau, roedd y cais yn cydymffurfio â pholisïau LU09 a DM06 oherwydd bydd yr ymgeisydd yn ailddefnyddio deunyddiau'r bwthyn gwreiddiol i adeiladu'r annedd newydd, a bydd yr annedd, felly, yn annedd gyfnewid
- Roedd yn edrych i raddau helaeth fel annedd oherwydd bod ffenestr ac waliau ar y walblat; roedd hyn yn wahanol i farn y swyddogion.

---

A200958 Cynnig i godi annedd ac ardal barcio, 3 Pen y Cei, Ffordd Felin-y-môr, Trefechan

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau a chytundeb cyfreithiol Adran 106 a fydd yn sicrhau swm gohiriedig o 10% i'w ddefnyddio tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn y sir, yn unol â darpariaeth polisi S05 o'r Cynllun Datblygu Lleol.

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Gareth Richards (Ymgeisydd) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200694 Newid defnydd uned wyliau rhif 5 yn llety rheolwr, Penuwch Fawr, Capel Seion, Aberystwyth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar gytundeb Adran 106 i glymu'r llety rheolwr at y busnes.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion am y rhesymau a ganlyn:-

- Ar ôl i'r pwyllgor drafod y cais, roedd hi'n amlwg nad oes modd i'r perchennog barhau â'r gwaith sy'n deillio o'r busnes ar hyn o bryd a bod angen rheolwr ar y safle 24 awr y dydd.
- Bydd y penderfyniad hwn yn ysgafnhau baich y busnes ar y perchennog sy'n wynebu problemau iechyd.
- Mae'r busnes eisoes yn llwyddiannus a bydd rheolwr yn cadw'r busnes i fynd yn yr economi wledig.
- Nid oedd y cais hwn ond yn darparu llety i reolwr a fydd ynghlwm wrth y busnes.
- O gymeradwyo'r cais, bydd yn cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy ganiatáu i'r perchennog barhau â'i fusnes yn hytrach na'i gau. Bydd hefyd yn gyfle i eraill ddysgu gan y busnes at y dyfodol.
- Mae cymeradwyo'r cais yn gydnaws â pholisïau Cyngor Sir Ceredigion.

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Cynan Jones, Ms Charmian Holloway a Ms Margaret Jones (Gwrthwynebwyr) a Mr Paul Nichollas (Asiant) a Mr Irvine i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200773 Annedd (Fforddiadwy) Anghenion Lleol Arfaethedig, Llwydlo Fach, Aber-arth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar gytundeb Adran 106 ar gyfer annedd fforddiadwy.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion am y rhesymau a ganlyn:-

- O gymeradwyo'r cais hwn, bydd yn cadw cefn gwlad Ceredigion yn fyw.
- Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod y safle mewn clwstwr ac felly ei fod yn bodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Chynllun Datblygu Lleol Ceredigion.
- O gymeradwyo'r cais, bydd modd i'r teulu gael cymorth gofal plant gan aelodau o'u teulu. Bydd hynny'n sicrhau bod modd i'r ymgeiswyr weithio a bydd hynny, yn ei dro, yn hybu'r economi.
- Roedd i'r cais fuddion amgylcheddol yn unol â pholisïau'r Cyngor Sir oherwydd ei fod yn lleihau'r teithio i gael gofal plant.

---

7. **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

Rhoddwyd diweddariad ynghylch y ceisiadau cynllunio yr aethpwyd i'r afael â nhw gan ddefnyddio'r awdurdod dirprwyedig. Nodwyd bod Covid-19 a'r sefyllfa o ran ffosffadau wedi effeithio'n sylweddol ar y gyfradd benderfynu.

8. **Apeliadau cynllunio**

Dim.

9. **Unrhyw fater arall**

- Nododd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE fod gofyn i Gyngor Sir Ceredigion ddarparu prisiad newydd o'r eiddo pan fydd eiddo a ddynodwyd yn 'gartref fforddiadwy' yn cael ei werthu. Fodd bynnag, cyfeiriodd at achos penodol yn ei ward lle nad oedd yr asiant gwerthu tai na'r gwerthwr yn cytuno â'r prisiad a ddarparwyd, yn enwedig o ganlyniad i'r cynnydd diweddar ym mhrisiau tai. Dywedwyd y byddai'r swyddogion yn ymchwilio i'r mater ac yn ymateb.
- Dywedwyd y bydd gweithdai'n cael eu cynnal i roi gwybodaeth i'r Aelodau am faterion amrywiol, gan gynnwys newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru, diweddariadau am geisiadau a alwyd i mewn, ffosffadau, a thai fforddiadwy.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 09 Mehefin 2021**

**Cadeirydd:-____________________**

**Dyddiad:_______________________**

# 1. Gohiriwyd/Deferred


| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Dyddiad y derbyniwyd / Received Date | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Argymhelliad / Recommendation |
|---|---|---|---|---|---|---|

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# 2. Prif Eitemau/Main Items

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Dyddiad y derbyniwyd / Received Date | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Argymhelliad / Recommendation |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A200862 | 09-10-2020 | Mr S Lewis | Erection of a Dwelling | Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HE | Refuse |
| 2 | A201095 | 18-12-2020 | J & M James & Hughes | Erection of a dwelling | Plot adjacent to Gwyn Ley, Penrhyncoch, Aberystwyth. SY23 3ES | Refuse |
| 3 | A200879 | 14-10-2020 | Mr Rhys James | Removal of agricultural condition 4 of planning permission D1/1000/87 erection of a dwelling for an agricultural worker | Rhos Rhydiol, Bwlchllan, Lampeter, Ceredigion, SA48 8QR | Refuse |
| 4 | A200994 | 23-11-2020 | Mr F Bowes (Mows n Grows) | Proposed storage shed for agricultural & horticultural machinery | Land Adjacent To Waun Fach, Cwm Cou, Newcastle Emlyn, SA38 9PE | Refuse |

# 2.1. A200862



# Pwyllgor / Committee

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A200862 |
| **Derbyniwyd / Received** | 09-10-2020 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Erection of a Dwelling |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HE |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr S Lewis, Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4HE |
| **Asiant / Agent** | Mr Robert Thomas (Thomas Login Architecture), Plas Y Berllan, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion, SA44 4TE |

**Y SAFLE A HANES PERTHNASOL**

Mae safle'r cais yn rhan o gae amaethyddol sy'n ffinio'n uniongyrchol i'r gogledd ag eiddo Tycoch Villa sy'n wynebu ffordd y B4576 rhyw 2.5km i'r de o bentref Llangwyryfon. Mae datblygiadau preswyl yn y lleoliad hwn yn wasgaredig; mae pedwar eiddo yn yr ardal gyfagos a'r eiddo agosaf (ar wahân i Dycoch Villa) rhyw 110m i ffwrdd.

Mae safle'r cais yn wastad ac wedi'i nodweddu gan glawdd aeddfed y tu blaen wrth y briffordd a thir amaethyddol agored i'r gogledd a'r gorllewin.

Ni chyflwynwyd ceisiadau cynllunio blaenorol mewn perthynas â'r darn hwn o dir yn benodol.

**MANYLION Y DATBLYGIAD**

Cais llawn yw hwn ac mae'n ceisio caniatâd cynllunio i godi annedd ar y farchnad agored.

Mae'r cynlluniau yn dangos darpariaeth ar gyfer tŷ mawr, pedair ystafell wely â garej ddwbl ar y tir. Mae'r eiddo ynghyd â phortsh/darn aml-bwrpas ar yr ochr yn rhyw 18m o hyd, 14m o led ag iddo do talcen slip.

Mae'r llawr gwaelod yn rhoi llety ar gyfer lolfa, stydi, cegin/ystafell fwyta fawr, cynllun agored ac ystafell gefn, ystafell aml-bwrpas a thoiled lawr grisiau. Mae'r llawr cyntaf yn darparu ar gyfer pedair ystafell wely, dau *en-suite* ac ystafell wisgo y gellir cerdded i mewn iddi, ystafell ymolchi, landin oriel a mynediad i ardal falconi y tu allan.

Defnyddir yr un deunyddiau i godi'r tŷ a'r garej, a'u rendro â gwaith brics a tho o lechi naturiol. Bwriedir cael mynediad newydd i gerbydau o'r is-ffordd (ffordd B) a rhoi tanc carthion/cyfleuster trin carthion ar gyfer y dŵr brwnt.

**POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn:

DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

S01 Twf Cynaliadwy

S04: Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'

S05 Tai Fforddiadwy

**YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau

amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr nac annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig' sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchodedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth ymarfer ei swyddogaethau i gwrdd â'r saith nod llesiant sy'n rhan o'r Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

**YMATEB I'R YMGYNGHORI**

Priffyrdd Ceredigion - Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau.

Draenio Ceredigion - Sylwadau

Dŵr Cymru/Welsh Water - Dim sylwadau

## CASGLIAD

Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio i godi annedd fawr ar y farchnad agored mewn cefn gwlad agored.

**Egwyddor Datblygu**

Ar hyn o bryd, mae safle'r cais yn rhan o gae amaethyddol y mae'r eiddo cyfagos, Tycoch Villa, yn berchen arno. Fe'i lleolir mewn cefn gwlad agored rhyw 2.5km i'r de o Langwyryfon. Ar wahân i Dycoch Villa ei hun, tyddyn â llai na 5 hectar, mae'r annedd breswyl agosaf rhyw 110m i ffwrdd. Y polisi allweddol sy'n berthnasol wrth ystyried y cais hwn yw S04 sy'n mynd i'r afael â chynigion datblygu mewn "aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill".

Mae'r polisi yn cymryd Polisi Cynllunio Cymru i ystyriaeth yn y ffaith y dylai'r datblygiad fod wedi'i leoli o fewn ac yn ffinio â'r aneddiadau hynny lle y gellir darparu orau ar ei gyfer o ran seilwaith, mynediad a chynefinoedd a thirweddau cadwraeth. Gall mewnlenwi neu roi estyniadau bach ar aneddiadau sy'n bodoli fod yn dderbyniol, yn enwedig lle y mae'n bodloni'r angen am dai fforddiadwy yn lleol, ond mae'n rhaid i adeiladu o'r newydd mewn cefn gwlad agored i ffwrdd o aneddiadau sy'n bodoli neu ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu barhau i gael eu rheoli'n llym.

Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio rheoli ymlediad datblygiadau preswyl mewn 'lleoliadau eraill' drwy ganiatáu anheddau newydd dim ond lle y bo angen y gellir ei gyfiawnhau o ran mentrau gwledig neu lle y bo gofyn ar sail angen na chafodd ei ddiwallu am dai fforddiadwy.

Nid yw'r ymgeisydd yn honni bod angen yr annedd ar gyfer menter wledig nac ar sail annedd fforddiadwy. Oherwydd hynny, yna ystyrir bod y cynnig yn gais i godi annedd ar y farchnad agored.

Felly, y farn yw bod y cynnig yn gwrthdaro â pholisïau S01, S04 a S05 y Cynllun Datblygu Lleol ac mae mewn safle maes glas y tu allan i unrhyw anheddiad neu nid o fewn ffurf adeiledig.

**Effaith ar y Dirwedd a Chymeriad yr Ardal**

Mae'r cynlluniau yn dangos darpariaeth tŷ deulawr mawr iawn ag iddo garej ddwbl mewn lleoliad yng nghefn gwlad agored. Dadleuir bod dyluniad yr adeilad yn ymddangos yn fwy trefol na gwledig a fyddai'n gwrthdaro â chymeriad gwledig yr ardal. Y farn yw y bydd annedd fawr mewn cefn gwlad agored, heb gyswllt o ran cymeriad ag eiddo cyfagos, yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal, ac yn ychwanegiad anghyson i'r dirwedd.

**Ystyriaethau Perthnasol Eraill**

Nodir nad oes gwrthwynebiadau i'r cynnig o safbwynt priffyrdd, draenio a'r trefniadau ar gyfer dŵr brwnt.

Fodd bynnag, nid yw'n gwrthbwyso'r gwrthwynebiad polisi i'r cynnig.

**Canlyniad**

I grynhoi, mae darpariaeth annedd fawr na ellir ei chyfiawnhau yn y lleoliad hwn yn gwbl groes i egwyddorion datblygu cynaliadwy a bydd yn arwain at ffurf annerbyniol o ddatblygu mewn cefn gwlad agored. Mae'r cynnig yn groes i bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol.

**AWDURDOD DIRPRWYEDIG**

Mae'r Cynghorydd R Rees-Evans, yr Aelod lleol, wedi datgan buddiant yn y cais ac felly cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad i'w ystyried am y rheswm hwnnw'n benodol.

## ARGYMHELLIAD:

Gwrthod y cais am fod yn anghydweld â polisi cenedlaethol a lleol.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A200862 |
| **Derbyniwyd / Received** | 09-10-2020 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Erection of a Dwelling |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HE |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr S Lewis, Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4HE |
| **Asiant / Agent** | Mr Robert Thomas (Thomas Login Architecture), Plas Y Berllan, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion, SA44 4TE |

# THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is part of an agricultural field directly adjoining to the north the property of Tŷ Coch Villa which fronts onto the B4576 road approx 2.5km to the south of the village of Llangwyryfon. Residential development at this location is sporadic with four properties in the immediate area with the nearest property (apart from Tŷ Coch Villa) being around 110m away.

The application site is level and characterised by mature hedgebank fronting the highway and by open agricultural land to the north and west.

No previous planning applications have been made on this particular parcel of land.

# DETAILS OF DEVELOPMENT

The application is in full and seeks planning permission for the erection of an open market dwelling.

The plans show the provision of a large four bedroomed house with a detached double garage within the grounds. The property together with a side utility / porch is approx 18m long, 14m wide and has a hipped roof.

The ground floor provides accommodation for a lounge, study, large open plan kitchen / dining area with snug and an utility and downstairs toilet area. The first floor accommodates four bedrooms, two en-suites, a walk through dressing room, a bathroom, gallery landing and access to an outside balcony area.

Both the house and the garage are to be constructed of the same materials, being rendered with brick detailing and roofed with natural slates. A new vehicular access from the B road is proposed and foul water is to be served by a septic tank / treatment plant.

# RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Mae’r polisÏau canlynol o’r Cynllun Datblygu Lleol yn  berthnasol wrth benderfynu’r cais hwn:: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

DM06 High Quality Design and Placemaking

DM13 Sustainable Drainage Systems

DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

DM15 Local Biodiversity Conservation

DM17 General Landscape

S01 Sustainable Growth

S04  Development in Linked Settlements and Other Locations

S05 Affordable Housing

# OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

**EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

• removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
• taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
• encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

**WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## CONSULTATION RESPONSES

Ceredigion Highways - No objection subject to conditions.

Ceredigion Drainage - Comments

DC/WW - Comments

## CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

The application seeks planning permission for the erection of a large open market dwelling in an open countryside location.

**The Principle of Development**

The application site is currently part of an agricultral field which belongs to the neighbouring property of Tŷ Coch Villa which is located in an open countryside location some 2.5km to the south of Llangwyryfon. Apart from Tŷ Coch Villa itself, which is a small-holding with less than 5 hectares, the nearest residential dwelling is approx 110m away. As such the key policy relating to the consideration of this application is S04 which deals with development proposals in 'linked settlements and other locations'.

The policy takes account of Planning Policy Wales in that the development should be located within and adjoining those settlements where it can be best be accommodated in terms of infrastructure, access and habitat and landscape conservation. Infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable, in particular where it meets a local need for affordable housing, but new building in the open countryside away from existing settlements or areas allocated for development in development plans must continue to be strictly controlled.

Policy S04 of the LDP seeks to control the proliferation of residential development in 'other locations' by permitting new dwellings only where there is a justifiable rural enterprise need or is required on unmet affordable need basis.

No claim has been made by the applicant that the dwelling is required as a rural enterprise dwelling or on the basis of an affordable dwelling. As that is the case then the proposal is considered as an application for the erection of an open market dwelling.

As such then it is the opinion that the proposal is in conflict with policies S01, S04 and S05 of the LDP as it is in a greenfield site outside of any settlement or not within any built form.

**Impact on the Landscape and Character of the Area**

The plans show the provision of a very large two storey house with a detached double garage in an open countryside location. It is argued that the design of the building has more of an urban rather than rural appearance which would be in conflict with the rural character of the area. It is the opinion that a large dwelling in an open countryside location with no link in character with any nearby properties will detrimentally impact the character of the area, constituting an incongruous addition on the landscape.

**Other Material Considerations**

It is noted that there are no objections to the proposal from a highway, drainage and foul water arrangement perspective. However, it does not outweigh the policy objection to the proposal.

**Outcome**

To conclude, the provision of an unjustified large dwelling at this location is completely contrary to the principles of sustainable development and will result in an unacceptable form of development in the open countryside. The proposal is contrary to both national and local planning policy.


**DELEGATED AUTHORITY**

Cllr R Rees-Evans, the local Member, has declared an interest in the application and therefore the application is presented to the Development Control Committee for consideration for that particular reason.

## RECOMMENDATION:

Refuse the application as being contrary to both national and local policy.

# 2.2. A201095



| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais** | A201095 |
| **Derbyniwyd** | 18-12-2020 |
| **Y Bwriad** | Codi annedd |
| **Lleoliad Safle** | Plot ger Gwyn Ley, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3ES |
| **Math o Gais** | Caniatâd Cynllunio Amlinellol – yr holl/rhai materion wedi'u cadw'n ôl |
| **Ymgeisydd** | J & M James & Hughes, Penybanc, Penrhyn-coch, Aberystwyth, SY23 3ER |
| **Asiant** | Mr Iwan Jones, Gellimanwydd, Talybont, SY24 5HJ |

# Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at gae amaethyddol ar hyd ffordd ddiddosbarth sy'n arwain o bentref Penrhyn-coch i bentrefan bach Salem. Mae caeau amaethyddol yn ffinio â safle'r cais i'r Gogledd a'r Dwyrain. I'r Gorllewin mae clwstwr bach o fyngalos sengl.

Mae hanes cynllunio blaenorol y safle fel a ganlyn:

901414 – Caniatâd Cynllunio Amlinellol – tir wrth ymyl Gwynley, Penrhyn-coch – codi bynglo – Gwrthodwyd (07-12-1990)

# MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais hwn yn gofyn am ganiatâd cynllunio amlinellol, gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl, ar gyfer codi un annedd fforddiadwy. I gyd-fynd â'r cais mae cynllun bloc dangosol sy'n dangos lleoliad yr annedd ac ymhle y ceir mynediad o brifffordd y sir. Cyflwynwyd y terfynau uchaf ac isaf canlynol:

- Hyd: Ar y lleiaf 8m – ar y mwyaf 18m
- Lled: Ar y lleiaf 6m – ar y mwyaf 18m
- Uchder (to bondo) – ar y lleiaf 2.4m – ar yr uchaf 6.5m
- Uchder (to crib) – ar y lleiaf 4m – ar yr uchaf 9.5m

Cefnogir y cais gan ddatganiad tai fforddiadwy, sy'n nodi bod yr ymgeiswyr yn bodloni meini prawf Deiliadaeth Tai Fforddiadwy Ceredigion. Mae gwerthusiad ecolegol rhagarweiniol byr hefyd wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cais.

# POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

**Polisïau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol**:

- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol (2021)
- PPW11 Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

**Polisïau Cynllunio Lleol Perthnasol**

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd

**Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig Perthnasol**

- Tai Fforddiadwy – Medi 2014
- Tai Fforddiadwy, taflenni cymorth Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)
- Taflen Arweiniad: Angen Tystiolaeth am Dai Fforddiadwy a Meini Prawf Cymwys
- Gwarchod Natur, Canllawiau Cynllunio Atodol – Ionawr 2015
- Dylunio a'r Amgylchedd Adeiledig, Canllawiau Cynllunio Atodol – Ionawr 2015
- Safonau parcio CSC, Canllawiau Cynllunio Atodol – Ionawr 2015

# YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar ei ardal, a'r angen i wneud popeth y mae'n rhesymol iddo ei wneud i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal. Cafodd y ddyletswydd hon ei hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd arwyddocaol neu annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig', sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau effaith yr anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn creu unrhyw oblygiadau arwyddocaol neu effaith ar bobl sydd â nodwedd warchodedig yn fwy nag unrhyw unigolyn arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYDODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi wrth ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y nodwyd yn Neddf 2015. Wrth wneud yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

# YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Trefeurig – dim gwrthwynebiad cyn belled â bod y datblygiad o fewn ardal y Cynllun Datblygu Lleol.

Priffyrdd – dim gwrthwynebiad yn destun amodau

Draenio Tir – sylwadau

Cyfoeth Naturiol Cymru – dim gwrthwynebiad

Dŵr Cymru – dim gwrthwynebiad yn destun amodau

Hawliau Tramwy – sylwadau

Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu ac un llythyr pryder yn ymwneud â'r datblygiad arfaethedig.

Gwrthwynebiad:

Hilary A Peters (dim cyfeiriad) – Gwrthwynebu ar sail diogelwch priffyrdd a diogelwch cerddwyr ar y lôn sy'n mynd at y datblygiad.

Pryderon:

G Morton (Bysaleg, Penrhyn-coch) – Pryderon ynghylch datblygu pellach mewn cefn gwlad agored. Pryderon ynghylch maint yr annedd arfaethedig wrth ystyried yr eiddo cyfagos.

## CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi: "Os ystyrir y cynllun datblygu at bwrpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau o bwys yn nodi fel arall."

Mae safle'r cais o fewn 'Lleoliadau Eraill' fel y'i nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig lle caiff datblygu ei reoli'n llym er mwyn cael datblygu cynaliadwy a gwarchod cefn gwlad agored. Mae Polisi S04 y CDLl yn nodi bod tai cyffredinol yn amhriodol o fewn 'lleoliadau eraill' oni bai bod cyfiawnhad iddynt ar y sail eu bod yn diwallu angen am dai fforddiadwy yn yr ardal ac yn unol â Pholisi S05; neu'r angen am annedd menter wledig yn unol â TAN6. Mae'r cais cynllunio hwn ar gyfer annedd fforddiadwy.

Mae'r Polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i dai fforddiadwy gael eu lleoli yn union wrth ymyl grwpiau o anheddau sy'n bodoli eisoes yn unol â bwriadau paragraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Er bod PCC wedi'i ddiweddaru ers hynny, mae paragraff 3.60 yn parhau i fynnu bod datblygiad yng nghefn gwlad yn cael ei leoli o fewn aneddiadau eraill neu'n gyfagos iddynt lle y gellir darparu orau ar ei gyfer o ran isadeiledd, mynediad, cynefin a chadwraeth tirlunio. Efallai y bydd mewnlenwi neu fân estyniadau i aneddiadau presennol yn dderbyniol yn enwedig pan fyddant yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy, ond rhaid parhau i reoli adeiladu newydd mewn cefn gwlad agored sydd i ffwrdd o aneddiadau sy'n bodoli eisoes.

Mae safle'r cais yn ffinio â chaeau amaethyddol i'r Gogledd a'r Dwyrain gyda chlwstwr bychan o anheddau i Orllewin y safle. Mae safle'r cais 160m o ffin anheddiad Penrhyn-coch ac nid yw wedi'i leoli o fewn anheddiad presennol neu'n gyfagos iddo. At hynny, nid oes palmentydd i'r anheddiad i ganiatáu cerdded yn ddiogel, ac nid oes darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded diogel i safle'r cais. Felly byddai preswylwyr yn debygol o ddibynnu ar ddefnyddio cerbyd preifat i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Mae hyn yn mynd yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a lleol sy'n ceisio hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy trwy sicrhau bod datblygiad tai yn cael ei adeiladu mewn lleoliadau lle gellir mynd at wasanaethau a chyfleusterau yn y lle cyntaf trwy gerdded a beicio, yna ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yna yn olaf mewn cerbydau modur preifat.

Mae datganiad tai fforddiadwy yn cyd-fynd â'r cais, sy'n honni nad oes anheddau fforddiadwy ym Mhenrhyn-coch na'r ardal sy'n diwallu anghenion penodol yr ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae'r ACLl yn anghytuno â chanfyddiadau'r datganiad tai fforddiadwy ac yn ystyried nad oes angen dynodedig am dai fforddiadwy yn yr ardal nad oes darpariaeth ar ei gyfer. Mae sawl annedd y gellir eu hystyried yn 'fforddiadwy' ar y farchnad ar hyn o bryd ym mhentref Penrhyn-coch. Bu datblygiadau tai fforddiadwy yn ddiweddar ym mhentref Penrhyn-coch, gyda chaniatâd cynllunio pellach ar gyfer tai fforddiadwy yn dal i fod yn weithredol neu mewn bodolaeth o fewn ffin anheddiad Penrhyn-coch. O'r herwydd, nid yw'r ACLl o'r farn fod angen heb ei ddiwallu am dai fforddiadwy yn yr ardal.

**Gofynion Nodweddion Corfforol:**

Mae'r arwynebedd llawr net lleiaf a mwyaf i gartref fforddiadwy wedi'i nodi yn Atodiad 4 Taflenni Cymorth SPG Tai Fforddiadwy (gweler tudalen 10). Y safon uchaf absoliwt yw 137 metr sgwâr. Serch hynny, mae'r paramedrau'r meintiau a gynigir yn llydan, maent yn rhoi modd i'r eiddo fod yn 18m o led wrth 18m o hyd gyda'r uchder i'r grib yn 9.5m. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer eiddo sylweddol sy'n llawer mwy na'r safonau uchaf sy'n dderbyniol ar gyfer cartref fforddiadwy.

Gallai maint yr annedd yn y lleoliad hwn, o ystyried y paramedrau maint uchaf a nodir yn y cynllun dangosol, fod yn niweidiol i gymeriad ac elfen wledig yr ardal leol ac yn groes i bolisïau DM06 a DM17 y CDLl.

**Materion eraill:**

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau gan ymgynghorwyr statudol. Nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig o ran priffyrdd a draenio tir, yn destun amodau priodol. Nododd y cyngor cymunedol lleol nad oeddent yn gwrthwynebu'r datblygiad cyn belled â'i fod o fewn ardal y cynllun datblygu lleol, ond mae'r safle y tu allan i ffin anheddiad Penrhyn-coch.

**Pŵer Dirprwyo:**

Mae'r Aelod lleol, y Cynghorydd Dai Mason, wedi gofyn bod y cais yn cael ei benderfynu gan aelodau'r pwyllgor cynllunio, am y rhesymau canlynol:

- Gan mae cais am adeiladu tŷ fforddiadwy yw hwn, mae angen rhoi pob chwarae teg i alluogi i bobl ifanc yr ardal fyw yn eu cymuned. Mae'r ymgeisydd yn dymuno byw yn agos i'w gartref lle mae'n ffermio.

## ARGYMHELLIAD:

Gwrthod

1. Byddai'r cais yn arwain at annedd fforddiadwy newydd mewn lleoliad anghynaliadwy a heb gyfiawnhad mewn cefn gwlad agored yn groes i'r polisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006) a'r Cynllun Datblygu lleol mabwysiedig, polisïau S01 a S04.

2. Byddai'r cais, o'i ganiatáu, yn tanseilio cyflawni strategaeth dai y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, yn benodol polisïau S01 ac S04.

| | |
|---|---|
| **Application Reference** | A201095 |
| **Received** | 18-12-2020 |
| **Proposal** | Erection of a dwelling |
| **Site Location** | Plot adjacent to Gwyn Ley, Penrhyncoch, Aberystwyth. SY23 3ES |
| **Application Type** | Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved |
| **Applicant** | J & M James & Hughes, Penybanc, Penrhyncoch, Aberystwyth, SY23 3ER |
| **Agent** | Mr Iwan Jones, Gellimanwydd, Talybont, SY24 5HJ |

# THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to an agricultural field along an unclassified road, which leads from the village of Penrhyncoch to the small hamlet of Salem. The application site is bounded to the North and East by agricultural fields. To the West is a small cluster of detached bungalows.

The site has the following planning history:

901414 – Outline Planning Permission – Land adj Gwynley, Penrhyncoch – Erection of a Bungalow – Refused (07-12-1990)

# DETAILS OF DEVELOPMENT

This application seeks outline planning permission, with all matters reserved, for the erection of a single affordable dwelling. The application is accompanied by an indicative block plan which show the siting of the dwelling and where access will be gained from the county highway. The following upper and lower limits are provided:

- Length: Min 8m - Max 18m
- Width: Min 6m – Max 18m
- Height (to eaves) – Min 2.4m – Max 6.5m
- Height (to ridge) – Min 4m – Max 9.5m

The application is supported by an affordable housing statement, which states that the applicants meet Ceredigion's Affordable Housing Occupancy criteria. A short preliminary ecological appraisal has also been submitted in support of the application.

# RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

**Relevant National Planning Policy**

- Future Wales - The National Plan 2040 (2021)
- PPW11 Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- TAN2 Planning and Affordable Housing (2006)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)

Mae'r polisÏau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

**Relevant Local Planning Policy**

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- S05 Affordable Housing
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU05 Securing the Delivery of Housing Developments
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM10 Design and Landscaping
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- DM20 Protection of Trees|Hedgerows and Woodlans

**Relevant Adopted Supplementary Planning Guidance**

- Affordable Housing – Sept 2014
- Affordable Housing SPG Help Sheets
- Guidance Sheet: Evidence Need for Affordable Housing and Qualifying Criteria
- Nature Conservation SPG – Jan 2015
- Built Environment and Design SPG – Jan 2015
- CCC Parking Standards SPG – Jan 2015

# OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

**EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

• removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
• taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
• encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

**WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

# CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Trefeurig Community Council – No Objection provided that the development be within the Local Development Plan area.

Highways – No Objection Subject to Conditions

Land Drainage - Comments

Natural Resources Wales – No Objections

Dwr Cymru Welsh Water – No Objection Subject to Conditions

Rights of Way - Comments

One letter of objection and one letter of concern has been received to the proposed development,

Objection:

Hilary A Peters (No Address) – Object on grounds of highway safety and pedestrian safety on the lane that serves the development

Concerns:

G Morton (Bysaleg, Penrhyncoch) – Concerns with further development in the open countryside. Concerns with the scale of the proposed dwelling when considering neighbouring properties.

## CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: “If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

The application site lies within ‘Other Locations’ as identified within the adopted Local Development Plan (LDP) where development is strictly controlled in the interest of achieving sustainable development and protecting the open countryside. LDP Policy S04 states that general housing is inappropriate within ‘other locations’ unless justified on the basis that it meets a demonstrated unmet affordable housing need in the locality and accords with Policy S05; or need for a rural enterprise dwelling in line with TAN6. This planning application is for an affordable dwelling.

The Policy also requires affordable housing to be located immediately adjacent to existing groups of dwellings in line with the intentions of Planning Policy Wales (PPW) paragraph 9.2.22. Whilst PPW has since been updated, paragraph 3.60 continues to require development in the countryside to be located within and adjoining settlements where it can best be accommodated in terms of infrastructure, access, habitat and landscaping conservation. Infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable in particular where they meet a local need for affordable housing, but that new building in the open countryside away from existing settlements must continue to be strictly controlled.

The application site is bounded by agricultural fields to the North and East with a small cluster of dwellings to the West of the site. The application site is 160m from the settlement boundary of Penrhyncoch and is not located within or adjoining an existing settlement. Furthermore, there are no pavements to the settlement to allow safe walking, and there is no public transport provision within a safe walking distance of the application site. Occupiers would therefore likely be reliant on the use of a private vehicle to access services and facilities. This is contrary to national and local planning policy which seek to promote sustainable means of travel by ensuring that housing development are built in locations where services and facilities can be accessed in the first instance by walking and cycling, then by public transport and then finally by private motor vehicles.

The application is accompanied by an affordable housing statement, which claims that there are no affordable dwellings in Penrhyncoch or the locality that meet the applicants’ specific needs. However, the LPA dispute the findings of the affordable housing statement and consider that there is no identifiable affordable housing need within the locality which isn't being catered for. Several dwellings, which can be considered ‘affordable’, are currently on the market in the village of Penrhyncoch. There have been recent affordable housing developments in the village of Penrhynoch, with further planning consents for affordable housing still active or extant within the settlement boundary of Penrhyncoch. As such, the LPA do not consider that there is an unmet affordable housing need within the locality.

**Physical Characteristics Requirements:**

The minimum and maximum net floor area for an affordable home is set out within appendix 4 of the Affordable Housing SPG Help Sheets (see page 10). The absolute maximum standard is 137sq.m. The scale parameters provided are broad however, allow the property to be 18m wide by 18m in length with a height to ridge of 9.5m. This would allow for a substantial property that far exceeds the maximum standards acceptable for an affordable home.

The scale of the dwelling at this location, considering the maximum scale parameters provided within the indicative plan could be detrimental to the rural character and appearance of the local area and contrary to policies DM06 and DM17 of the LDP.

**Other Matters:**

No objections were raised by statutory consultees. There is no objection to the proposed development with regards to highways and land drainage, subject to appropriate conditions. The local community council noted that they did not object to the development should it be within the local development plan area, however the site sits outside the settlement boundary of Penrhyncoch.

**Power of Delegation:**

The local member, Cllr Dai Mason, has requested that the application be determined by members of the planning committee, for the following reason:

- The proposal is for an affordable home, and we need to give local young people the chance to live in their

communities. The applicant wishes to live close to his home where he farms.


## RECOMMENDATION:

Refuse

1. The application would result in a new affordable dwelling within an unjustified open countryside and unsustainable location contrary to national planning policy set out within Planning Policy Wales and Technical Advice Note (TAN) 2: Planning and Affordable housing (2006) and the adopted Local Development Plan, policies S01 and S04.

2. The application, if permitted, will undermine the deliverability of the adopted Local Development Plan housing strategy, specifically policies S01 and S04.

# 2.3. A200879



| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A200879 |
| **Derbyniwyd / Received** | 14-10-2020 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Dileu amod amaethyddol 4 ar ganiatâd cynllunio D1/1000/87 i godi annedd i weithiwr amaethyddol |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Rhos Rhydiol, Bwlchllan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8QR |
| **Math o Gais / Application Type** | Dileu/Amrywio'r Amod(au) |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr Rhys James, Penlanlas, Lledrod, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4TD |
| **Asiant / Agent** | Mr Geraint John (Geraint John Planning Ltd), Swyddfa 16 (tŷ 1, 2il lawr) The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5EA |

# Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at annedd sengl ar wahân o'r enw Rhos Rhydiol, i'r gogledd o bentref Bwlchllan. Mae'r ddeiliadaeth yn cynnwys yr annedd ei hun, ynghyd â thua 9.7ha o dir cysylltiedig.

Mae gan safle'r cais yr hanes cynllunio perthnasol canlynol:

871000 – Caniatâd Cynllunio Amlinellol – Annedd amaethyddol – Cymeradwywyd yn destun amodau (11/01/1988)

900787 – Materion a gadwyd yn ôl – Codi annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol – Cymeradwywyd yn destun amodau (01/03/1991)

A190604 – Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon – Meddiannaeth ar dŷ annedd yn torri amodau deiliadaeth amaethyddol 871000 & 900787 – gwrthodwyd (24/01/2020)

Gwrthodwyd cais A190604 ar y sail nad oedd y tor meddiannaeth yn bodoli ar adeg y cais ac ar y pryd roedd yr annedd yn wag.

# MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am gael dileu amod 4 sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio amlinellol D1/1000/87, sef:

"Caiff deiliadaeth yr annedd ei chyfyngu i berson sy'n gweithio'n llwyr neu'n bennaf, neu a gyflogwyd ddiwethaf, yn yr ardal leol ym maes amaethyddiaeth fel y'i diffinnir yn adran 290(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, neu goedwigaeth – neu i ŵr neu wraig weddw person o'r fath, ac unrhyw ddibynyddion sy'n preswylio yno."

Mae'r datganiad ategol yn nodi bod yr ymgeisydd wedi etifeddu'r eiddo hwn ym mis Ebrill 2019. Yn ei lythyr eglurhaol mae'r ymgeisydd yn nodi ei fwriad i fyw yn Rhos Rhydiol ac o'r herwydd mae'n dymuno dileu'r amod amaethyddol er mwyn bwy yn yr annedd yn gyfreithlon.

Mae'r dogfennau canlynol yn cyd-fynd â'r cais hefyd:

- Tystiolaeth yn ymwneud ag adeiladu'r annedd
- Tystiolaeth yn ymwneud â meddiannaeth yr annedd ers ei hadeiladu (gan bwy a thros ba gyfnod); ac
- Amserlenni a natur deiliadaeth yr annedd gan unigolion nad oeddent yn cael eu cyflogi ar unrhyw adeg mewn amaethyddiaeth neu goedwigaeth

# POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisi Cynllunio Cenedlaethol perthnasol:

- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)
- PPW11 Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy (2010)

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill

# YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar ei ardal, a'r angen i wneud popeth y mae'n rhesymol iddo ei wneud i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal. Cafodd y ddyletswydd hon ei hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd arwyddocaol neu annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig', sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau effaith yr anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn creu unrhyw oblygiadau arwyddocaol neu effaith ar bobl sydd â nodwedd warchodedig yn fwy nag unrhyw unigolyn arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi wrth ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y nodwyd yn Neddf 2015. Wrth wneud yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Nantcwnlle – dim ymateb

Priffyrdd – dim sylwadau

Draenio Tir – dim gwrthwynebiad

Hawliau tramwy – dim gwrthwynebiad

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan drydydd parti.

## CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi: "Os ystyrir y cynllun datblygu at bwrpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau o bwys yn nodi fel arall."

***Cyfiawnhad a Thystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd:***

Mae'r dadleuon dros ddileu'r amod a nodir yn y datganiad ategol wedi'u gwneud ar y sail bod yr amod yn methu â bodloni'r profion a amlinellir yn Adran 3.0 Cylchlythyr 016/2014 Llywodraeth Cymru, sef nad yw'r amod amaethyddol yn angenrheidiol, yn orfodadwy neu'n rhesymol.

Mae'r cais yn nodi nad yw'r amod yn angenrheidiol. Mae dogfennau a gyflwynwyd yn dangos bod tir yn Rhos Rhydiol o dan gytundeb tenantiaeth rhwng 2009 a 2016 i denant amaethyddol, honnir bod y denantiaeth yn dal yn ei lle. Yn ogystal, roedd deiliaid blaenorol yr eiddo hwn (Mr a Mrs Ross), sef yr unig ddeiliaid a'r mwyaf diweddar hyd yma, yn byw yno yn torri'r amod amaethyddol am 17 mlynedd. Gan fod y tir wedi'i osod ar rent ar hyn o bryd, ac nad oedd y deiliaid blaenorol wedi'u cyflogi mewn amaethyddiaeth, mae'r datganiadau ategol yn honni nad yw'r amod yn angenrheidiol.

Yn ail, mae'r datganiadau ategol yn dweud bod Amod 4 caniatâd cynllunio cyf. D1/1000/87 yn anorfodadwy. Mae dogfennau ategol yn cyflwyno tystiolaeth bod deiliaid blaenorol yr annedd, sef yr unig rai a'r rhai diweddaraf, wedi byw yno yn groes i Amod 4 y caniatâd cynllunio am gyfnod o ddim llai na 17 mlynedd. O'r herwydd, ystyria'r ymgeisydd fod amod 4 o

D1/1000/87 yn anorfodadwy oherwydd y diffyg canfod arno am gryn gyfnod o amser.

Yn drydydd, mae'r datganiad cynllunio yn honni bod yr amod amaethyddol yn gosod cyfyngiad difrifol ar ryddid yr ymgeiswyr i feddiannu'r annedd yn gyfreithlon. Maent yn nodi bod yr amod amaethyddol wedi arwain at galedi ariannol i'r ymgeisydd, gan fod yn rhaid iddo dalu biliau ar eiddo gwag y mae'n dymuno ei feddiannu. Maent yn honni gan nad oedd y tir o dan berchnogaeth yr ymgeisydd ar adeg rhoi caniatâd i'r cais cynllunio gwreiddiol bod yr amod yn afresymol ac y dylid ei ddileu.

Mae'r ymgeisydd a'r asiant ill dau wedi cyflwyno datganiadau pellach, y maent yn eu hystyried yn berthnasol yn y cais hwn. Cyfeirir at ganiatáu i bobl ifanc aros yn y sir fel elfen bwysig yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Ceredigion (2007-2022), a byddai dileu'r amod hwn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd aros yng Ngheredigion yn hytrach na chwilio am fan preswylio neu anheddiad yn rhywle arall.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn dweud bod yr amod presennol ac amod menter wledig TAN6 yn cyflawni'r 6 phrawf a geir yn y canllawiau cenedlaethol, h.y. mae'n angenrheidiol, yn berthnasol i'r gwaith cynllunio, yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu, yn orfodadwy, yn fanwl gywir ac yn rhesymol.

Er na chafodd y tor amod ei ganfod am gyfnod o amser, mae'r ACLl yn cadw mewn cof y gwrthodwyd y cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer meddiannu tŷ annedd a oedd yn torri amodau deiliadaeth amaethyddol (A190604) ac y byddai unrhyw doriad amod yn y dyfodol yn dal i fod yn orfodadwy, pe bai'r ACLl yn dewis dilyn y trywydd hwnnw. O'r herwydd, ystyrir bod amod amaethyddol safonol neu amod menter wledig (yn unol â TAN6) yn amod derbyniol, a byddai unrhyw doriad ar yr amod hwnnw yn orfodadwy.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn wreiddiol ar gyfer yr annedd yn y lleoliad hwn mewn cefn gwlad agored gan fod cyfiawnhad ar y pryd ei fod yn angenrheidiol i gartrefu gweithiwr amaethyddol a oedd angen byw yn yr ardal yn hytrach nag mewn anheddiad cyfagos. Adlewyrchwyd hynny wrth osod yr amod ynghlwm ag amaeth, a oedd am sicrhau mai dim ond gweithwyr amaethyddol cymwys oedd preswylwyr yr annedd yn y dyfodol. Er efallai na feddiannwyd yr annedd yn unol â'r amod hwnnw (gyda'r preswylwyr blaenorol yn byw yn Rhos Rhydiol yn torri amod 4 caniatâd cynllunio D1/1000/87) gallai fod yn dal angen am annedd amaethyddol yn yr ardal leol. Mae 9.7ha o dir ynghlwm wrth yr annedd, felly gallai'r daliad barhau i gefnogi gweithiwr menter wledig yn y dyfodol.

***Asesiad y Swyddog***

Mae'r brif ystyriaeth yn ymwneud ag a ddangoswyd yn ddigonol, gyda thystiolaeth gefnogol, nad oes angen am annedd menter wledig mwyach.

Mae TAN 6 yn nodi ym mharagraff 4.13.5, pan dderbynnir ceisiadau cynllunio i ddileu'r amodau deiliadaeth amaethyddol bresennol, dylai'r awdurdod cynllunio ystyried rhoi amod menter wledig TAN6 yn lle'r amod deiliadaeth amaethyddol bresennol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr annedd yn cael ei chadw i ddiwallu anghenion tai gweithwyr gwledig a phobl leol sydd angen tai fforddiadwy.

Wrth ystyried ceisiadau o'r fath, mae'r polisi cenedlaethol yn amlinellu'n glir y dylid gwrthsefyll ceisiadau i ddileu amodau deiliadaeth amaethyddol, ac yn lle hynny rhoi amod menter wledig TAN6 arnynt, er mwyn caniatáu i ystod ehangach o bobl gydymffurfio â'r amodau.

Mae paragraff 8.26 canllawiau ymarfer TAN6 yn nodi ymhellach '*bydd angen dangos, gan roi tystiolaeth ategol, nad oes angen yr annedd ar y fenter wledig mwyach ac nad oes angen tai fforddiadwy lleol yn yr ardal. Profion ar y farchnad fu'r dull hirsefydlog ar gyfer dangos nad oes angen wedi'i brofi."* Nid yw'r annedd wedi'i marchnata ar gyfer ei gwerthu na'i rhentu ar Amod Menter Wledig TAN6, ac felly ni phrofwyd a allai'r annedd fod yn opsiwn i weithwyr yn yr ardal ehangach neu hyd yn oed ddiwallu angen tai fforddiadwy i bobl leol.

Byddai cael amod Menter Wledig TAN6 yn lle'r amod amaethyddol yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol. Mae'n debygol y gallai'r ymgeisydd fyw yn yr annedd o dan yr amod newydd – ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth i awgrymu na allai'r ymgeisydd feddiannu'r annedd yn gyfreithlon o dan amod menter wledig/annedd fforddiadwy TAN6. O'r herwydd, byddai disodli'r amod ag amod menter wledig TAN6 yn bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol ac yn debygol o ganiatáu i'r ymgeisydd feddiannu'r annedd yn gyfreithlon.

Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi gwrthod archwilio'r opsiwn o feddiannu'r eiddo hwn yn gyfreithlon o dan amod menter wledig TAN6.

Wrth roi amod menter wledig TAN6 yn lle'r amod presennol, byddai'r ACLl yn sicrhau bod yr annedd yn parhau i ddarparu ar gyfer y cyfiawnhad gwreiddiol o ran diwallu anghenion gweithiwr amaethyddol neu bobl leol sydd angen tai fforddiadwy. Mae'r annedd yn gysylltiedig â 9.7ha o dir, felly mae'n debygol y gallai gefnogi rhyw fath o fenter wledig i breswylwyr y dyfodol.

***Casgliad***

Y brif ystyriaeth gyda'r cais hwn yw a fyddai dileu'r amod yn bodloni polisïau lleol a chenedlaethol ynghylch cyfyngu deiliadaeth anheddau yng nghefn gwlad. Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn nodi pa ddatblygiad tai y dylid ei ganiatáu mewn cefn gwlad agored neu 'Leoliadau Eraill' fel y nodwyd yn y CDLl. Mae'n amlwg na fyddai'r annedd dan sylw yn cael ei chaniatáu yn y lleoliad hwn oni bai ei fod yn diwallu angen menter wledig hanfodol.

Mae'r ACLl o'r farn, yn unol â'r Polisi Cenedlaethol, y dylid rhoi amod menter wledig TAN6 yn lle'r amod presennol. Byddai ailosod yr amod hwn yn golygu y byddai'r annedd yn parhau yn brif breswylfa unigolyn ac y gallai gael ei ailddefnyddio'n barhaus i ddiwallu anghenion gweithwyr menter wledig neu fel tai fforddiadwy i bobl leol, byddai hefyd yn debygol o ganiatáu i'r ymgeisydd feddiannu'r annedd yn gyfreithlon.

Credaf y byddai dileu ar yr amod meddiannaeth yn yr achos hwn yn golygu peidio â chydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol fel yr amlinellir yn TAN6, gan nad oes tystiolaeth ddigonol sy'n dangos trwy brofi'r farchnad nad oes angen parhaus am annedd amaethyddol yn yr ardal.

***Pŵer Dirprwyo***

Mae'r aelod lleol, y Cynghorydd Lynford Thomas, wedi gofyn bod y cais yn cael ei benderfynu gan aelodau'r pwyllgor cynllunio, am y rheswm canlynol:

- Rhoi cyfle i fachgen ifanc, lleol i gartrefi mewn tŷ fferm mae wedi'i etifeddu. Does gan yr ymgeisydd ddim awydd i ffermio, dim ond defnyddio'r tŷ fel cartref cyffredin.

## ARGYMHELLIAD:

Gwrthod

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A200879 |
| **Derbyniwyd / Received** | 14-10-2020 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Removal of agricultural condition 4 of planning permission D1/1000/87 erection of a dwelling for an agricultural worker |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Rhos Rhydiol, Bwlchllan, Lampeter, Ceredigion, SA48 8QR |
| **Math o Gais / Application Type** | Removal/Variation of Condition(s) |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr Rhys James, Penlanlas, Lledrod, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4TD |
| **Asiant / Agent** | Mr Geraint John (Geraint John Planning Ltd), Office 16 (house 1, 2nd Floor) The Maltings East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EA |

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to a detached dwelling known as Rhos Rhydiol, located north of the village of Bwlchllan. The holding consists of the dwelling itself, along with some 9.7ha of associated land.

The application site has the following relevant planning history:

871000 – Outline Planning Permission – Dwelling agricultural – Approved Subject to Conditions (11/01/1988)

900787 – Reserved Matters – Erection of a dwelling for an agricultural worker – Approved Subject to Conditions (01/03/1991)

A190604 – Certificate of Lawful Development -Occupation of dwelling house in breach of agricultural occupancy conditions 871000 & 900787 – Refused (24/01/2020)

Application A190604 was refused on the grounds that the breach of occupation was not subsisting at the time of the application and the dwelling was currently unoccupied.

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks to remove condition 4 attached to outline planning permission D1/1000/87, which reads:

“The occupation of the dwelling shall be limited to a person solely or mainly employed, or last employed, in the locality in agriculture as defined in section 290(1) of the Town and Country Planning Act 1971, or in forestry (including any dependents of such a person residing with him), or a widow or widower of such a person”.

The supporting statement states that the applicant inherited this property in April 2019. In his covering letter the applicant states his intent to live at Rhos Rhydiol and as such wishes to remove the agricultural dwelling in order to occupy the dwelling lawfully.

The application is also accompanied by the following documents:

- Evidence relating to the construction of the dwelling.
- Evidence relating to the occupancy of the dwelling since its construction (by whom and over what period); and
- Timescales and nature of the occupancy of the dwelling by individuals who were at no point employed in agriculture or forestry.

## RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Mae’r polisÏau canlynol o’r Cynllun Datblygu Lleol yn  berthnasol wrth benderfynu’r cais hwn: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

Relevant National Planning Policy:

- Future Wales: the National Plan 2040 (February 2021)
- PPW11 Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)

- TAN6 Planning for Sustainable Rural Communities (2010)

Mae’r polisÏau canlynol o’r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu’r cais hwn: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations

# OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

**EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of ‘protected characteristics’, namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

• removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
• taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
• encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

**WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council’s duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

# CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Nantcwnlle Community Council – No Response

Highways – No Observations

Land Drainage – No Objection

Right of Way – No Objection

No third party observations were received.

# CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: “If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

***Justification and Evidence put forward by applicant:***

The arguments for the removal of the condition set out in the supporting statement is on the basis that the condition fails to meet the tests outlined in Section 3.0 of the Welsh Government Circular 016/2014 being that the agricultural tie condition is not necessary, enforceable or reasonable.

The application states that the condition is not necessary. Submitted documents show that land at Rhos Rhydiol was under

a tenancy agreement from 2009-2016 to an agricultural tenant, the tenancy is claimed to be still in place. Additionally, the former, only and most recent occupants of this property to date (Mr and Mrs Ross) lived in breach of the agricultural tie condition for 17 years. As the land is currently rented out, and that the previous occupiers were not employed in agriculture the supporting statements make claim that the condition is not necessary.

Secondly, the supporting statements claim that Condition 4 of planning permission ref. D1/1000/87 is unenforceable. Supporting documents provides evidence that the former, only and most recent occupants of the dwelling lived in breach of Condition 4 of the planning permission for a period of no less than 17 years. As such, the applicant considers condition 4 of D1/1000/87 unenforceable due to its lack of detectability for a considerable period of time.

Thirdly, the planning statement makes claim that the agricultural tie condition places a severe limitation on the applicants' freedom to lawfully occupy the dwelling. They state that the agricultural tie has placed the applicant in financial hardship, as he must pay bills on an empty property he wishes to occupy. They claim as the land was not under the ownership of the applicant at the time of the original planning application was consented and that the condition is unreasonable and should be removed.

Both the applicant and the agent have submitted further statements, which they consider material in this application. Reference is made to allowing young people to remain in the county as an important element in Ceredigion's adopted LDP (2007-2022), and the removal of this condition would provide the applicant with the opportunity to remain in Ceredigion rather than seek residence or occupation elsewhere.

The LPA however maintain that the current condition and TAN6 rural enterprise condition meets the 6 tests prescribed in national guidance, i.e. it is necessary, relevant to planning, relevant to the development to be permitted, enforceable, precise and reasonable.

The LPA consider that whilst the breach of condition was undetected for a period of time, the application for a Certificate of Lawful Development for Occupation of dwelling house in breach of agricultural occupancy conditions (A190604) was refused and any future breach of condition would still be enforceable should the LPA choose to follow that course of action. As such, a standard agricultural condition or a rural enterprise condition (in line with TAN6) is considered an acceptable condition, and any breach of said condition would be enforceable.

Planning permission was originally granted for the dwelling in this location in the open countryside as it was justified at the time as being necessary to house an agricultural worker who needed to live in the area rather than in a nearby settlement. That was reflected in the imposition of the agricultural tie condition, which aimed to ensure that future occupiers of the dwelling was only by qualifying agricultural workers. Whilst the dwelling may not have been occupied in line with that condition (with the previous occupants living at Rhos Rhydiol in breach of condition 4 of planning permission D1/1000/87) there could still be a need for an agricultural dwelling in the local area. Some 9.7ha of land is tied to the dwelling, the holding could therefore still support a rural enterprise worker in future.

***Officer's Assessment***

The main consideration relates to whether it has been sufficiently demonstrated, with supporting evidence, that there is no longer a rural enterprise need for the dwelling.

TAN 6 states at paragraph 4.13.5 that where planning applications are received to lift existing agricultural occupancy conditions, the planning authority should consider replacing the existing agricultural occupancy condition with the TAN6 rural enterprise condition. This will ensure that the dwelling is kept available to meet the housing needs of rural workers and local people in need of affordable housing.

In considering such applications, national policy clearly outlines that applications to remove agricultural occupancy conditions should be resisted, and instead replaced with a TAN6 rural enterprise condition, to allow a broader range of people to comply with the conditions.

Paragraph 8.26 of the TAN6 practice guidance further states "*there will be a need to demonstrate, with supporting evidence, that there is no longer a rural enterprise need for the dwelling or local affordable housing need in the area. The longstanding mechanism for demonstrating the absence of need has been market testing".* The dwelling has not been marketed for sale or rent on the TAN6 Rural Enterprise Condition, and therefore it has not been tested whether the dwelling could be an option for workers in the wider area or even fulfil an affordable housing need for local people.

Replacing the condition with the TAN6 Rural Enterprise condition would be in line with national policy. The applicant could likely occupy the dwelling under the replaced condition - no information has been provided to suggest the applicant could not lawfully occupy the dwelling under the TAN6 rural enterprise/ affordable dwelling condition. As such, replacing the condition with the TAN6 rural enterprise condition would satisfy both national planning policy requirements and would likely allow the applicant to lawfully occupy the dwelling.

However, the applicant has refused to explore the option of lawfully occupying this property under a replaced TAN6 rural enterprise condition.

In replacing the current condition with the TAN6 Rural enterprise condition, the LPA would ensure that the dwelling continues to serve its original justification in meeting the needs of an agricultural worker or local people in need of affordable housing. The dwelling is associated with some 9.7ha, as such, it is likely to be able to support some form of rural enterprise for future occupants.

***Conclusion***

The main consideration with this application is whether the removal of the condition would satisfy local and national policy regarding the restriction of occupancy of dwellings in the countryside. Policy S04 of the adopted Local Development Plan set out what housing development should be allowed in the open countryside or 'Other Locations' as identified in the LDP. It is clear that the dwelling in question would not be permitted in this location unless it met an essential rural enterprise need.

The LPA consider that in line with National Policy, the condition should be replaced with the TAN6 rural enterprise condition. Replacing this condition would mean that the dwelling would remain as a person's main residence and could be continually re-cycled and meet the needs of rural enterprise workers or as affordable housing for local people, it would also likely allow the applicant to occupy the dwelling lawfully.

I deem the removal of the occupancy condition in this instance not to accord with national planning policy as outlined in TAN6, as there is insufficient evidence that demonstrates through market testing that there is no continuing need for an agricultural dwelling in the area.

***Power of Delegation***


The local member, Cllr Lynford Thomas, has requested that the application be determined by members of the planning committee, for the following reason:

- Give a young local boy the chance to live in a farmhouse that he has inherited. The applicant has no intrest in farming, and only wants to inhabit the dwelling as an ordinary house.

## RECOMMENDATION:

Refuse

## 2.4. A200994



| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais** | A200994 |
| **Daeth i law** | 23-11-2020 |
| **Y Bwriad** | Sied storio arfaethedig ar gyfer offer amaethyddol a garddwriaethol |
| **Lleoliad y Safle** | Tir wrth Waun Fach, Cwm-cou, Castellnewydd Emlyn, SA38 9PE |
| **Y Math o Gais** | Cais Cynllunio Llawn |
| **Ymgeisydd** | Mr F Bowes (Mows ‘n Grows), Bridge House, Llwyncelyn, Cilgerran, SA43 2PE |
| **Asiant** | Mr Zac Addison (Addison Design & Development), Y Ddôl, Rhiw y Plas, Aberporth, Aberteifi, Ceredigion, SA43 2DA |

**Y SAFLE A’I HANES PERTHNASOL**

Saif safle’r cais mewn cae i’r gogledd-orllewin o Gwm-cou, wrth y ffordd wledig sy’n arwain o’r brif ffordd rhwng Cwm-cou a Chenarth. Saif safle’r cais wrth yr eiddo sy’n dwyn yr enw Waun Fach.

Nid oes gan y cae dim hanes o ran cynllunio. Mae’r safle yn destun ymchwiliad gorfodi sy’n mynd rhagddo ar gyfer newid defnydd y tir er mwyn cadw cynhwysydd cludo *(shipping container)*, cerbydau, cynwysyddion a thrugareddau sy’n gysylltiedig â busnes yr ymgeisydd - Mows 'n' Grows Landscaping.

Fel rhan o'r ymchwiliad gorfodi, dywedodd yr ymgeisydd ym mis Ebrill 2018 fod y safle wedi cael ei ddefnyddio fel canolfan ar gyfer ei fusnes ers mis Ebrill 2015. Nid yw'r defnydd presennol a wneir o'r safle - fel canolfan ar gyfer busnes yr ymgeisydd - yn gyfreithlon felly am na ddangoswyd bod y defnydd wedi bodoli ers dros 10 mlynedd. Felly, nid yw'n ddiogel rhag camau gorfodi yn ei erbyn.

**MANYLION Y DATBLYGIAD**

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn i godi sied ar gyfer storio peiriannau sy’n gysylltiedig â busnes yr ymgeisydd, Mows ‘n’ Grows.

Bydd y sied arfaethedig yn cael ei lleoli i’r chwith o’r fynedfa i'r cae, wrth ochr lle mae’r cae yn ffinio â'r ffordd. Mae'r sied yn mesur 18.3m wrth 9.1m; mae uchder y bondo yn 4.6m ac uchder crib y to yn 5.8m. Bydd gan yr adeilad wal frics ar yr hanner isaf a bordiau pren ar yr hanner uchaf, to shîts *box profile*, a drws rholio â chaead o fetel galfanedig.

Mae'r cais yn nodi bod cwmni'r ymgeisydd yn gwneud gwaith tirlunio, coedwigaeth a garddwriaeth fasnachol yn bennaf yn ogystal â gwaith domestig. Mae'n datgan bod y cwmni'n ymgymryd â llawer o waith clirio a draenio tir amaethyddol yn ogystal â gwaith coedwigaeth megis casglu coed tân a chwympo coed. Ar yr ochr arddwriaethol mae'r busnes yn gwneud gwaith plannu o ran meithrin hadau planhigion i’w plannu ar eu prosiectau tirlunio yn ogystal â thyfu coed ifainc ar gyfer eu prosiectau coedwigaeth. Dywed y cais ymhellach nad yw'r busnes yn cael ei gynnal ar safle'r cais ond yn hytrach ar safleoedd eraill, a bod angen y sied ar gyfer storio'r peiriannau. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn nodi bod y busnes yn cyflawni'r gweithgarwch canlynol -

- Trin coed, rheoli coetiroedd, casglu a phrosesu coed tân
- Cynnal a chadw tir (masnachol ac amaethyddol)
- Gwaith contractio ffensys amaethyddol
- Gosod systemau dyfrhau
- Egino planhigion a gwaith plannu
- Cynnal a chadw gerddi
- Gosod perthi
- Draenio tir

Cynigir storio'r peiriannau canlynol yn y sied:

- Tractor ac offer cyffredinol
- Trelars
- Peiriannau torri porfa a phalu
- Offer prosesu coed tân
- Peiriannau cloddio (hyd at 8 tunnell o bwysau)

Mae'r ymgeisydd wedi darparu anfonebau i ddangos y math o waith y mae'r busnes yn ei wneud sy'n cyfeirio at waith coed, llogi peiriant cloddio 1.5 tunnell, a ffensio, ond nid yw'r wybodaeth yn helaeth. Hefyd mae'r ymgeisydd wedi darparu datganiadau gan fusnesau sy'n nodi'r gwaith y mae'r busnes wedi'i wneud, ac mae'r rhain yn cynnwys gwaith megis clirio tir, cynnal a chadw tir, draenio, gwaith garddio rheolaidd, tocio perthi a thorri porfa, ffensio (gan gynnwys ffensys stoc

amaethyddol), cwympo a phlannu coed. Mae hefyd yn nodi bod yr ymgeisydd yn bwriadu ymestyn ei waith plannu gyda thwneli tyfu ar y safle i ddarparu rhagor o le tyfu, ond ni roddwyd rhagor o wybodaeth am hyn.

**POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

**Polisïau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol**

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (fersiwn 11)
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN23 Datblygu Economaidd (2014)

**Polisïau Cynllunio Lleol Perthnasol**

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- LU12 Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd sydd heb eu Neilltuo
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd

**Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ac sy'n berthnasol:**

- Canllaw Cynllunio Atodol **-** Ardal Tirwedd Arbennig

**YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- gwaredu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchodedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu

hunain.

**YMATEBION YN SGIL YMGYNGHORI**

- **Cyngor Cymuned Beulah** – Yn cefnogi am y rhesymau canlynol:

    o Mae’r busnes wedi bod ar y safle hwn ers 7 mlynedd ar dir yr etifeddodd yr ymgeisydd, ac mae wedi datblygu yn fusnes cynaliadwy sy’n gwasanaethu Ceredigion, Sir Benfro a gogledd Sir Gaerfyrddin.

    o Mae’n gwrthod yn gadarn yr Adroddiad Cynllunio sy’n nodi nad yw’r safle wrth ochr pentref Cwm-cou – mae’r safle ond 200 llath i ffwrdd o ffurf adeiledig y pentref. Ni fyddai modd lleoli safle gwaith o’r math hwn yng nghanol adeiladau pentref. Cyfeiria’r Adroddiad at “dai eraill gerllaw.”

    o Mae’r ymgeisydd wedi’i leoli yng Nghwm-cou ac yn rhedeg ei fusnes o’i gartref yng Nghwm-cou, felly mae angen iddo fod ar bwys ei fusnes.

    o Mae'r sied yn hanfodol i ddiogelu’r peiriannau ar y safle hwn – sydd bellach yn y cae agored – a defnyddir peiriannau drutach yn sgil ehangu'r busnes a chyflogi dau weithiwr.

    o Hyd y gŵyr y Cyngor hwn, mae'r busnes hwn yn darparu gwasanaethau cymorth effeithiol iawn i Gynghorau Cymuned yng Ngheredigion/Sir Gaerfyrddin ac i feysydd chwarae. Felly hefyd i’r gwasanaethau llwybrau yn y ddau Awdurdod Lleol. Yn ogystal, mae gwasanaethau preifat i ffermwyr yn rhan fawr o'r busnes ac mae hyn yn cydgysylltu â meini prawf TAN 6.

    o Mae'r Cyngor yn nodi bod hwn yn wasanaeth gwerthfawr mewn ardal wledig, a'i fod yn cael cefnogaeth y Gymuned.

    o Nodwn fod polisi economaidd Cyngor Sir Ceredigion ei hun yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal y math hwn o weithgarwch er budd economaidd y gymuned.

| 37 | A210276 | Mr Richard Davies, Rose Evans & Rhian Richards | Erection of 4 dwellings, comprising of 2 affordable and 2 speculative units. | Land adjacent to Dyffryn, Pontgarreg, Llandysul, SA44 6AU | Caniatawyd gydag Amodau a Cytundeb S106 / Approved Subject to Conditions and S106 Agreement | 17-05-2021 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 38 | A210277 | Mr and Mrs David & Lorraine Corfield | Proposed alterations and extension | Charnock Nant Y Coed, Aberporth, Cardigan, SA43 2DF | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 25-05-2021 |
| 39 | A210281 | Mr and Mrs Gerallt Williams | Construction of decking | Llwyneithin, Tresaith, SA43 2JL | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 19-05-2021 |
| 40 | A210287 | Mr M Dixon | Change of use on my existing garage to turn it into holiday let. | Brynderwen, Capel Seion, Aberystwyth. SY23 4EE | Gwrthodwyd / Refused | 26-05-2021 |
| 41 | A210288 | Ms Amanda Cross | Proposed parking facilities | Hollygrove, Llangeitho, Tregaron, SY25 6TL | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 14-05-2021 |
| 42 | A210289 | Dr D Tudor (National Library of Wales) | Discharge condition 3 of planning permission A200717 - full details of type, number and position of all fixing points | National Library Of Wales, Penglais, Aberystwyth, SY23 3BU | Caniatawyd / Approved | 14-05-2021 |
| 43 | A210292 | Mr and Mrs Davies (Y H Davies & Co) | Change of Use of sheds from agricultural to equine and erection of a manege | Glynyrodyn, Coed Y Bryn, Llandysul, SA44 5JP | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 26-05-2021 |
| 44 | A210293 | Mr and Mrs J Morris | Erection of 2 dwellings - plot 2 and 4 | Plots, Clos Llwynpiod, Ferwig Road, Cardigan. SA43 1PJ | Caniatawyd gydag Amodau a Cytundeb S106 / Approved Subject to Conditions and S106 Agreement | 18-05-2021 |
| 45 | A210297 | SL Regan | Rear extension to existing dwelling | Y Gorwel, 1, Pencae, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JW | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 18-05-2021 |
| 46 | A210298 | Mr John Cooper | Recovering of existing balcony & provision of glazed balustrade | Glan-y-mor, 11 Heol Y Graig, Aberporth, Cardigan, SA43 2HB | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 18-05-2021 |
| 47 | A210300 | Caroline Morris | Erection of office cabin for use as an office for polytunnels | Llawr Y Glyn , Glynarthen , SA44 6PR | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 27-05-2021 |
| 48 | A210304 | Ms Anwen Morris | Erection of one open market dwelling | Land at Llwynpiod, Ferwig Rd., Cardigan, SA43 1PJ | Caniatawyd gydag Amodau a Cytundeb S106 / Approved Subject to Conditions and S106 Agreement | 19-05-2021 |
| 49 | A210305 | Ben Taylor | Re-roofing of existing outbuilding in pitched slate roof and retain existing elevations / except for some re-building | Castell Cwtch, Llangrannog, Llandysul, SA44 6RH | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 19-05-2021 |
| 50 | A210306 | TM & MY Edwards | Removal of Solar PV panels from roofing and field, removal of Solar PV tracking array and replacement with fixed Solar PV array on metal framing. | Ty Isaf Farm, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NP | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 27-05-2021 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 51 | A210313 | Mr Darrell Baston | Creation of track for agricultural vehicles and management of woodland. Track length 340m, track width 2.5m. | Brynreithyn, Ffair Rhos, Ystrad Meurig, SY25 6BS | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 01-06-2021 |
| 52 | A210319 | Mr Squires | Minor amendment to planning application A200023 - amended plans. | Haulfan, Llandre, Bow Street, SY24 5BZ | Caniatawyd / Approved | 13-05-2021 |
| 53 | A210323 | Mr and Mrs S Lewis | Proposed Replacement Outbuilding (domestic workshop, Garage & storage) | Parcllwyd, Llechryd, Cardigan, SA43 2NH | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 24-05-2021 |
| 54 | A210324 | Mr L Moulesdale (Tai Wales & West Housing) | Installation of air source heat pump | 6, Creigle Towyn Road, New Quay, SA45 9QQ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 25-05-2021 |
| 55 | A210325 | Mr L Moulesdale (Tai Wales & West Housing) | Installation of air source heat pump | 4, Creigle Towyn Road, New Quay, SA45 9QQ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 25-05-2021 |
| 56 | A210326 | Mr L Moulesdale (Tai Wales & West Housing) | Installation of air source heat pump | 5, Creigle Towyn Road, New Quay, SA45 9QQ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 25-05-2021 |
| 57 | A210327 | Mr L Moulesdale (Tai Wales & West Housing) | Installation of air souce heat pump | 3, Creigle Towyn Road, New Quay, SA45 9QQ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 25-05-2021 |
| 58 | A210328 | Mr L Moulesdale (Tai Wales & West Housing) | Installation of air source heat pump | 2, Creigle Towyn Road, New Quay, SA45 9QQ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 25-05-2021 |
| 59 | A210331 | Mrs Sophie Bennett | Proposed erection of domestic garage | Parc y Bedw, Llwyn y Groes, Tregaron, SY25 6QE | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 27-05-2021 |
| 60 | A210333 | Mr S Luckett | Erection of 4No. ancillary buildings | Glynadar, Llandygwydd, Cardigan, SA43 2QU | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 24-05-2021 |
| 61 | A210341 | (S D Morgan & Son) | Covering roof for manure storage on farm yard | Penparc, Lampeter, SA48 8NU | Caniatâd ymlaen llaw ddim ei angen / Prior Approval Not Required | 20-05-2021 |
| 62 | A210342 | (Wales and West Housing Association ) | Non-Material Amendment to vary condition 2 (approved plans) of planning permission A181165 | The Tollgate, Piercefield Lane, Penparcau, SY23 1RX | Caniatawyd / Approved | 13-05-2021 |
| 63 | A210343 | Mr Craig Evans | A roof over an existing concrete yard | Cilgwyn Uchaf, Llangybi, Lampeter, SA48 8NN | Caniatâd ei angen / Permission required | 17-05-2021 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 64 | A210354 | D Williams | Minor amendment to planning permission A190447 (Amended Plans). | Llwynifan, 49 Maes y Dderwen, Cardigan, SA43 1PE | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 20-05-2021 |
| 65 | A210362 | Mr B French (HSBC Corporate Real Estate) | Installation of one new CCTV camera. | HSBC, Harford Square, Lampeter, SA48 7DU | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 27-05-2021 |
| 66 | A210365 | Mr and Mrs H & S Rees | Erection of rear extension. | Irfon, Llanbadarn Road, Aberystwyth, SY23 1EY | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 28-05-2021 |
| 67 | A210367 | Mr B Harris | Alterations and Extension to main house. Erection of new garage and workshop | Wellewen, Llangoedmor, Cardigan, SA43 2LJ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 27-05-2021 |
| 68 | A210370 | Mr Dylan Evans | Non-Material Amendment to planning permission A200728 - amendment to roof covering | Henry Richard School, Lampeter Road, Tregaron, SY25 6HG | Caniatawyd / Approved | 14-05-2021 |
| 69 | A210395 | (Cartrefi Redwood Homes) | Amendment to original design by reducing the width of the proposed dwelling, introduction of dormer window and slight increase to height of dwelling to incorporate rooms above, planning permission A161034. | Land rear of Glan Helen, North Road, Lampeter. SA48 7AL | Caniatawyd / Approved | 17-05-2021 |
| 70 | A210416 | Mr Andrew Davies (Wales & West Housing Association ) | Discharge condition 5 of planning permission A200730 - Construction Method Statement | Aberaeron Hospital, Princes Avenue, Aberaeron. SA46 0JJ | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 25-05-2021 |
| 71 | A210417 | Mr Andrew Davies (Wales & West Housing Association ) | Discharge condition 6 of planning permission A200730 - Machinery working hours | Aberaeron Hospital Prince's Avenue, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0JJ | Caniatâd ddim ei angen / Consent not needed | 25-05-2021 |
| 72 | A210432 | Mr B Harris | Erection of an agricultural building for housing livestock and storage of farm machinery and feed. | Wellewen, Llangoedmor, Cardigan, SA43 2LJ | Caniatâd ymlaen llaw ddim ei angen / Prior Approval Not Required | 27-05-2021 |
| 73 | A210465 | Mr I Parry (Tilhill) | Extend existing infrastructure with a short new section of forestry track to enable forestry machinery to extract timber while protecting the environment. | Forestry land near the village of Gorsgoch, Llanybydder. | Caniatâd ymlaen llaw ddim ei angen / Prior Approval Not Required | 25-05-2021 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 74 | A210479 | Ms C Owen (Tai Ceredigion Cyf) | Non material minor amendment to planning application A190304 - amendments to Southern boundary proposals adjoining the highway to accommodate Building Regulations compliant level access | Canolfan Dulais Pontfaen Road, Lampeter, SA48 7BN | Caniatawyd / Approved | 02-06-2021 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# 4. Penderfyniadau Apeliadau/Appeal Decisions

**13-05-2021 - 02-06-2021**

| # | Cyfeirnod yr Apel / Appeal Reference | Cais / Gorfodaeth / Linked Application / Enforcement | Apeliwr / Appellant | Rhesymau dros apelio / Grounds for Appeal | Lleoliad / Location | Penderfyniad Allanol / External Decision | Dyddiad Penderfyniad Allanol / External Decision Date |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | APP/D6820/A/21/3269154 | A200981 | Mr A Szebeni (Rees & Soady) | Against refusal of permission | 70 Cambrian Street, Aberystwyth, SY23 1NZ | Allowed with Conditions | 19-05-2021 |
| 2 | APP/D6820/E/20/3262818 | A150941 | Ms K Price | Against refusal of listed building consent. | Aberarth Chapel, Aberarth, Aberaeron, SA46 0LN | Dismissed | 19-05-2021 |

# 5. Apeliadau a Dderbyniwyd/Appeals Received

**13-05-2021 - 02-06-2021**

| # | Cyfeirnod yr Apel / Appeal Reference | Cais / Gorfodaeth / Linked Application / Enforcement | Apeliwr / Appellant | Rhesymau dros apelio / Grounds for Appeal | Lleoliad / Location | Penderfyniad Allanol / External Decision | Dyddiad Penderfyniad Allanol / External Decision Date |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Penderfyniad ar gostau

Ymweliad â safle a wnaed ar 13/04/21

**gan A L McCooey, BA (Hons) MSc MRTPI**

**Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 19/5/21**

# Costs Decision

Site visit made on 13/04/21

**by A L McCooey, BA (Hons) MSc MRTPI**

**an Inspector appointed by the Welsh Ministers**

**Date: 19/5/21**

**Cais am gostau mewn perthynas ag Apêl Cyf: APP/D6820/A/21/3269154**
**Cyfeiriad y Safle: 70 Stryd Cambria, Aberystwyth, SY23 1NZ**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar y cais hwn am gostau i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir y cais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 78, 322 ac Atodlen 6.
- Gwneir y cais gan Mr A Szebeni am ddyfarnu costau llawn yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion.
- Roedd yr apêl yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer Addasu Tŷ Amlfeddiannaeth yn 3 o fflatiau preswyl hunangynhwysol i gynnwys estyniadau, newidiadau a gwaith cysylltiedig.

## Penderfyniad

1. Gwrthodir y cais am ddyfarnu costau.

## Rhesymau

2. Mae Atodiad Adran 12, Dyfarnu Costau, o'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn cynghori, beth bynnag yw canlyniad yr apêl, y ceir ond dyfarnu costau yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn yn afresymol, a bod yr ymddygiad afresymol hwnnw wedi achosi i'r parti sy'n gwneud cais am gostau fynd i gost ddiangen neu wastraffus yn y broses apêl.

3. Mae'r rhesymau dros wrthod yn adlewyrchu pryderon yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn â maint y llety byw arfaethedig yn y fflat ail lawr (disgrifiwyd fel fflat stiwdio). Nid yw'r Cyngor dan orfodaeth i gytuno bod y datblygiad yn dderbyniol dim ond am ei fod yn bodloni safonau gofod iechyd yr amgylchedd. Mae'r ystyriaeth o gais am ganiatâd cynllunio yn mynnu asesu'r datblygiad arfaethedig yn ehangach. Gan nad oes unrhyw safonau mabwysiedig mewn polisïau na chanllawiau cynllunio cenedlaethol na lleol, yna mae hawl gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i arfer barn gynllunio. Er i mi ddyfarnu yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chaniatáu'r apêl, mae'r materion perthnasol yn gytbwys iawn fel yr amlinellwyd yn y prif benderfyniad. Y cyfuniad o amgylchiadau wnaeth fy narbwyllo y dylid rhoi caniatâd cynllunio.

4. Mae'r amgylchiadau hyn yn unigryw i'r cynnig yn yr apêl hon. Mae hyn yn ei gwahaniaethu oddi wrth y datblygiadau tebyg a gymeradwywyd y cyfeiriwyd atynt gan yr apelydd. Mae'n rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Hefyd, cynghorodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod y datblygiad 3 o fflatiau mewn eiddo tebyg drws nesaf wedi cael caniatâd 25 mlynedd yn ôl ar adeg pan oedd polisi cynllunio yn wahanol i'r hyn ydyw nawr.

5. Mae Polisi DM06 yn cynnwys 10 o feini prawf yn gysylltiedig â dylunio a chreu lleoedd. Mae'r adroddiad dirprwyedig yn dynodi bod y cynnig yn cydymffurfio â rhai o'r meini

prawf yn y Polisi, ond nid rhai eraill. Rwyf o'r farn fod yr adroddiad yn eglur o ran pa rai oedd y materion pryder a oedd yn parhau. Nid oes unrhyw ymddygiad afresymol yn hyn o beth.

**Casgliad**

6. Am y rhesymau a roddwyd uchod, canfyddaf na wnaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymddwyn yn afresymol wrth wrthod caniatâd cynllunio. Deuaf i'r casgliad, felly, nad yw ymddygiad afresymol yn arwain at gost ddiangen, fel y disgrifiwyd yn Atodiad Adran 12 i'r Llawlyfr Rheoli Datblygu, wedi'i ddangos. Gwrthodir y cais am ddyfarnu costau.

*A L McCooey*

**Arolygydd**

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Penderfyniad ar yr Apêl

Ymweliad â safle a wnaed ar 13/04/21

**gan A L McCooey, BA (Hons) MSc MRTPI**

**Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 19/5/21**

# Appeal Decision

Site visit made on 13/04/21

**by A L McCooey, BA (Hons) MSc MRTPI**

**an Inspector appointed by the Welsh Ministers**

**Date: 19/5/21**

**Cyf yr apêl: APP/D6820/A/21/3269154**

**Cyfeiriad y safle: 70 Stryd Cambria, Aberystwyth, SY23 1NZ**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Mr A Szebeni yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf: A200981 dyddiedig 17 Tachwedd 2020, drwy hysbysiad dyddiedig 15 Ionawr 2021.
- Y datblygiad arfaethedig yw Addasu Tŷ Amlfeddiannaeth yn 3 o fflatiau preswyl hunangynhwysol i gynnwys estyniadau, newidiadau a gwaith cysylltiedig.

## Penderfyniad

1. Caniateir yr apêl a rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer Addasu Tŷ Amlfeddiannaeth yn 3 o fflatiau preswyl hunangynhwysol i gynnwys estyniadau, newidiadau a gwaith cysylltiedig yn 70 Stryd Cambria, Aberystwyth, SY23 1NZ yn unol â thelerau'r cais, Cyf: A200981 dyddiedig 17 Tachwedd 2020, yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

   1) Rhaid dechrau'r datblygiad cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

      Rheswm: Cydymffurfio ag Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

   2) Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol: Cynigion Braslun (Cynlluniau a Gweddluniau), lluniad rhif 04 Diwygiad D, a dderbyniwyd gan yr ACLl ar 12-01-2021 a Chynllun Safle - lluniad rhif 02, a dderbyniwyd gan yr ACLl ar 17-11-2020.

      Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r dogfennau, y cynlluniau a'r lluniadau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais.

   3) Ni chaiff unrhyw fflat ei feddiannu hyd nes bod waliau a lloriau'r unedau wedi'u hinswleiddio'n acwstig yn unol â manylion i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo. Rhaid cadw'r inswleiddiad cyhyd ag y meddiannir y fflatiau.

      Rheswm: Diogelu amodau byw trigolion lleol

4) Ni cheir meddiannu unrhyw fflat hyd nes bod gwaith i ddal a gwaredu unrhyw gynnydd mewn dŵr ffo wyneb sy'n deillio o'r datblygiad wedi'i gwblhau yn unol â manylion i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo yn ysgrifenedig.

Rheswm: Atal llifogydd mewn eiddo gerllaw ac effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol.

**Cais am gostau**

2. Gwnaed cais am gostau gan yr apelydd yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r cais hwn yn destun Penderfyniad ar wahân.

**Prif Faterion**

3. Y prif faterion yw p'un a fyddai'r fflat llawr uchaf arfaethedig yn rhy fach i ddarparu amodau byw derbyniol ar gyfer meddianwyr yn y dyfodol, a ph'un a fyddai'r cynnig yn golygu gor-ddatblygu'r safle felly.

**Rhesymau**

4. Mae'r safle yng nghanol tref Aberystwyth lle mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion yn ffafrio cynigion ar gyfer anheddau newydd. Nid oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol unrhyw wrthwynebiad yn nhermau dylunio i'r ffenestr ddormer arfaethedig na'r estyniad i'r cefn yn lle nifer o siediau a thoiled tu allan. Ni fyddai goredrych dros eiddo preswyl presennol o'r balconïau arfaethedig yn effeithio'n sylweddol ar amodau byw eiddo preswyl cyfagos oherwydd gosodiad a ffurfweddiad yr eiddo. Nid yw'r ardal i'r cefn yn weledol o dir y cyhoedd ac mae golygfeydd o eiddo eraill yn gyfyngedig. Byddai'r gwaith arfaethedig, felly, yn cadw cymeriad a golwg Ardal Gadwraeth Aberystwyth.

5. Mae polisïau creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru, y ddogfen bolisi ddiweddar Adeiladu Lleoedd Gwell a Pholisi DM06 y CDLl yn ceisio darparu cartrefi o ansawdd da sy'n cefnogi lles ac iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwell. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dadlau y byddai'r fflat llawr uchaf arfaethedig yn rhy fach i ddarparu amodau byw derbyniol ar gyfer meddianwyr yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod hefyd nad oes unrhyw bolisi penodol yn ymwneud â safonau gofod mewnol yn y CDLl, na chanllawiau cysylltiedig.

6. Mae'r partïon yn cytuno y byddai gan y fflat llawr uchaf arwynebedd llawr defnyddiadwy[1] o 20m$^2$. Gallai'r fflat gael ei feddiannu gan bâr neu un unigolyn[2] a byddai hyn yn bodloni safonau gofod iechyd yr amgylchedd y Cyngor ar gyfer dau unigolyn (19m$^2$). Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn fod canllaw arall yn addysgiadol, ac mae'n cyfeirio at y Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) sy'n amlinellu'r cod rheoleiddio ar gyfer anheddau sy'n cael eu datblygu neu'u caffael gan Gymdeithasau Tai (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig). Dyfynnir ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddiweddaru GAD hefyd[3]. Mae'r trosolwg yn datgan y byddai'r safonau newydd yn berthnasol i gartrefi newydd a ariennir gan grant, a thai fforddiadwy a sicrhawyd drwy rwymedigaethau neu amodau cynllunio. Ar sail yr ymgynghoriad drafft hwn, mae'r Cyngor yn dadlau y dylai'r gofod llawr lleiaf ar gyfer fflat un ystafell wely i 2 unigolyn fod oddeutu 50m$^2$ a hyd yn oed pe bai ar gyfer un person, yna dylai hanner y ffigur gofod llawr hwnnw gael ei ddarparu.

[1] Heb gynnwys yr ystafell gawod a'r landin.
[2] Gan na fyddai modd gorfodi amodau sy'n cyfyngu ar ddeiliadaeth.
[3] O'r enw Mannau a Chartrefi Prydferth Gorffennaf 2020

7. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Polisi S05 Tai Fforddiadwy y CDLl yn cyfeirio at arwynebeddau llawr net y Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD). Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r meintiau lleiaf a mwyaf ar gyfer mathau penodol o annedd fforddiadwy i gydymffurfio â Pholisi S05 y CDLl. Nid yw'r canllawiau'n ymwneud â thai ar y farchnad agored. Nodaf hefyd, er nad yw GAD yn cynnwys canllawiau ar feintiau ystafelloedd a chyfleusterau, nid yw'n cynnwys y tabl arwynebeddau llawr net a ddyfynnwyd yn y canllawiau uchod. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a ddyfynnir yn dweud yn glir bod y tabl wedi'i atgynhyrchu o *Ganllawiau Costau Derbyniol 2012* Llywodraeth Cymru[4]*.* Diben y ddogfen honno yw darparu arweiniad ar dderbynioldeb tebygol costau cynlluniau at ddibenion grant.

8. Nid yw'r safonau gofod dangosol a fenthyciwyd o'r canllawiau a'r canllawiau drafft ar dai fforddiadwy yn berthnasol i'r math hwn o ddatblygiad. Ni thynnwyd unrhyw bolisi cynllunio o Gymru nad yw'n cymhwyso unrhyw gyfryw safonau at fy sylw.

9. Mae Polisi LU07 yn ymwneud ag is-rannu anheddau. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dadlau nad yw'r cynnig yn bodloni maen prawf 1: bod yr annedd o faint a gosodiad addas a allai gael ei addasu heb estyniad sylweddol. Yn ogystal â mater maint y fflat stiwdio, honnir y byddai diffyg gofod amwynder. Byddai iard fechan gan fflat y llawr gwaelod, a byddai balconïau bach gan y ddau fflat arall.

10. Mae'r fflat stiwdio arfaethedig yn fach, ond mae'r apelydd wedi dangos y gellir bodloni'r manylebau o ran dodrefn, storio a gofod cylchrediad yn y GAD. Mae'n dweud mai ar gyfer un unigolyn fydd y fflat hwn, ac y gellir rheoli hyn o dan ddeddfwriaeth arall. Fodd bynnag, gan fod y fflat stiwdio arfaethedig yn bodloni safonau gofod iechyd yr amgylchedd, yna ni eglurwyd sut fyddai rheolaethau eraill yn berthnasol. Mae'r ardaloedd amwynder yn yr awyr agored yn gyfyngedig.

11. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill i'w hystyried. Mae'r eiddo mewn lleoliad cynaliadwy yng nghanol y dref, lle mae gofod amwynder o amgylch eiddo preswyl yn gyfyngedig. Mae'r cynnig, felly, yn cydweddu â chyd-destun lleol yr adeiladau ac amgylchoedd (Polisi DM06). Ar hyn o bryd mae'r eiddo yn cynnwys 5 o fflatiau un ystafell, a'r iard yw'r unig ofod amwynder. Mae Polisi LU07 yn ceisio rheoli datblygu fflatiau un stafell newydd oherwydd y problemau sy'n gysylltiedig â chrynodiad o fflatiau un ystafell mewn ardal benodedig. Mae'r apelydd yn dadlau y byddai disodli fflatiau un ystafell gyda fflatiau yn fantais gynllunio ac mae rhywfaint o ddilysrwydd yn y ddadl hon. Yn fwy perthnasol yw'r ffaith fod y defnydd preswyl presennol yn ddwys a byddai'r cynnig yn darparu llety o ansawdd gwell, gan y byddai 5 o fflatiau un ystafell yn cael eu disodli gan 4 ystafell wely ar draws 3 o fflatiau. Byddai'r gofod amwynder yn cael ei wella ychydig hefyd. Yng nghyd-destun y defnydd presennol fel fflatiau un ystafell, rwyf yn fodlon y byddai'r fflat stiwdio yn darparu gofod/cyfleusterau digonol ar gyfer bywyd bob dydd. Deuaf i'r casgliad fod y cynnig yn bodloni Polisi LU07.

12. Er body safle mewn parth llifogydd C1, o ystyried graddfa a natur y datblygiad arfaethedig, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru na'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwrthwynebu'r datblygiad ar y pwynt hwn. Cefnogwyd y cais gydag asesiad hyfywedd a ddangosodd y byddai swm gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy yn gwneud y cynllun yn anhyfyw. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi derbyn yr asesiad hwn ac mae'n dweud na fyddai cyfraniad tai fforddiadwy yn ofynnol, yn unol â Pholisi S05 y CDLl.

13. Gan fy mod yn caniatáu'r apêl, nid oes angen i mi ystyried ymhellach yr enghreifftiau eraill o ddatblygiadau tebyg y cyfeiriodd yr apelydd atynt.

[4] Diwygiwyd yn 2015

14. Mae amodau awgrymedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u hail-eirio i gydymffurfio â chanllawiau ac adlewyrchu'r amodau model yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu.

**Casgliad**

15. Byddai'r fflat ail lawr arfaethedig o faint cyfyngedig. Byddai maint y llety a'r cyfleusterau ystafell ymolchi yn bodloni safonau gofod iechyd yr amgylchedd. Nid oes unrhyw safonau gofod cynllunio sy'n berthnasol i'r math hwn o annedd. Gellir darparu'r cyfleusterau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â GAD. Mae lefel y gofod amwynder yn gymesur â'r defnydd presennol o'r adeilad fel fflatiau un ystafell a chymeriad eiddo eraill yn y lleoliad canol tref hwn. Mae holl amgylchiadau penodol yr achos hwn (fel yr amlinellwyd uchod) yn golygu y byddai'r cynnig yn cydymffurfio â byrdwn y canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru, Adeiladu Lleoedd Gwell, a Pholisi DM6 y CDLl. Ni fyddai'r cynnig yn golygu bod yr adeilad yn cael ei orddatblygu yn yr holl amgylchiadau hyn, a byddai felly yn cydymffurfio â Pholisi LU07. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried y ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, o dan adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er y gall maint yr anheddau arfaethedig fod yn gyfyngedig, rwyf o'r farn fod y penderfyniad hwn yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru y pennwyd eu bod yn ofynnol gan adran 8 y Ddeddf. Am y rhesymau a roddwyd, ac ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol, deuaf i'r casgliad y dylai'r apêl lwyddo.

*A L McCooey*

**Arolygydd**

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Penderfyniad ar yr Apêl

Ymweliad â safle a wnaed ar 13/04/21

**gan A L McCooey, BA (Hons) MSc MRTPI**

**Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 19/5/21**

# Appeal Decision

Site visit made on 13/04/21

**by A L McCooey BA (Hons) MSc MRTPI**

**an Inspector appointed by the Welsh Ministers**

**Date: 19/5/21**

**Cyf yr apêl: APP/D6820/E/20/3262818**

**Cyfeiriad y safle: Capel Bethel, Aberarth, Aberaeron, SA46 0LN**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir yr apêl o dan adran 20 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd adeilad rhestredig.
- Gwneir yr apêl gan Ms Kate Price yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf: A150941 dyddiedig 19 Tachwedd 2015, drwy hysbysiad dyddiedig 1 Mehefin 2020.
- Y gwaith arfaethedig yw addasu ac ymestyn hen gapel i'w wneud yn annedd.

## Penderfyniad

1. Mae'r apêl yn cael ei gwrthod, a gwrthodir caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith addasu ac ymestyn arfaethedig ar hen gapel i'w wneud yn annedd.

## Materion Gweithdrefnol

2. Mae'r apelydd yn cyfeirio at ddiwygiadau i'r cynlluniau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn 2018. Ni chynhwyswyd y cynlluniau diwygiedig gyda'r lluniadau a gyflwynwyd a oedd yn cyd-fynd â'r apêl. Fodd bynnag, darparwyd y cynlluniau diwygiedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac fe'u cynhwyswyd gan yr apelydd mewn dogfen apêl yn rhestru gohebiaeth gyda'r Cyngor. Rwyf wedi ystyried y cynlluniau diwygiedig hyn yn yr apêl hon. Rwyf hefyd wedi ystyried y disgrifiad o'r diwygiadau yn neges e-bost yr apelydd at yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 13 Medi 2018. Yng ngolau'r diwygiadau a restrwyd yn y neges e-bost honno, mae'n ymddangos y gwnaed y cyfeiriadau at fariau gwydro yn ffenestri'r estyniad arfaethedig ar y cynlluniau diwygiedig, ac at fanylion y corbelau ar lefel llawr yr estyniad yn y datganiad apêl trwy gamgymeriad.

3. Mae datganiad achos yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi manylion y datblygiad arfaethedig yn adran 4. Nid yw'r apelydd wedi dynodi bod unrhyw ran o'r gwaith a nodwyd yn adran 4 yn anghywir. Mae'r cyfeiriad at Ddatganiad Treftadaeth yn adran 4, yn ôl pob tebyg, yn ymwneud â chynnwys y Datganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynwyd, a ddarparwyd gan yr apelydd, sy'n cael ei ystyried yn y penderfyniad hwn.

**Prif Fater**

4. Y prif fater yw effaith yr estyniad a'r newidiadau arfaethedig i Gapel Bethel ar gyfanrwydd, cymeriad a diddordeb hanesyddol yr adeilad rhestredig.

**Rhesymau**

5. Mae'r hen gapel wedi'i leoli yng nghanol pentref bach Aberarth. Capel Methodist Calfinaidd ydyw a adeiladwyd ym 1848, gyda rhai newidiadau wedi'u cofnodi ym 1900 (y portshys o bosibl), ac mae wedi'i restru yn adeilad Gradd II. Y rheswm am y rhestriad yw "y capel yw'r prif adeilad yn Aberarth, pentref wedi'i adeiladu'n anarferol o glòs, ac mae'n cadw ei gymeriad fel capel eang, blaen-ochrol, gyda'r seddau caeedig gwreiddiol o hyd". Mae dwy fynedfa i'r adeilad o bortshys tebyg. Mae'r drysau a'r ffenestri yn creu cymesuredd perffaith i'r wedd flaen. Mae'r hen stabl a'r storfa atodedig wedi'u hadeiladu i mewn i'r bancyn i un ochr ac mae'n ymddangos yn israddol i'r capel. Mae'r tu mewn i'r capel yn nodwedd bwysig, a chyfeirir ato'n fanwl yn y rhestriad. Mae'r pulpud mawr wedi'i leoli yng nghanol yr adeilad rhwng y drysau. Mae seddau caeedig cydffurf yn ymledu o'r pulpud a'r bloc canol o eisteddleoedd.

*Polisi a Chanllawiau*

6. Mae Adran 16 (2) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (y Ddeddf) yn mynnu bod y sawl sy'n penderfynu yn rhoi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb gwarchod yr adeilad neu ei osodiad, neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo wrth ystyried p'un ai rhoi caniatâd adeilad rhestredig i unrhyw waith. Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) (PPW) a Nodyn Cyngor Technegol 24 (TAN 24) yn adlewyrchu'r dyletswyddau statudol hyn. Mae TAN 24 yn datgan y dylid rhoi ystyriaeth i nodweddion ffisegol yr adeilad sy'n cyfiawnhau ei restru ac yn cyfrannu at ei arwyddocâd, er enghraifft, ei ffurf a'i gynllun, a nodweddion o ddiddordeb, megis y tu mewn i'r adeilad. Materion pwysig eraill yw effaith y gwaith arfaethedig ar arwyddocâd yr adeilad a ph'un a fyddai manteision cymunedol sylweddol. Mae rhai adeiladau wedi'u rhestru am yr union reswm eu bod yn enghreifftiau cymharol ddigyfnewid o'u math, a gall eu newid neu'u hymestyn yn amhriodol niweidio'u diddordeb arbennig.

7. Mae canllawiau manylach[1] yn datgan y dylai cynigion "Gadw manylion hanesyddol pryd bynnag y bo modd; atgyweirio lle y bo angen; adfer lle y bo'n briodol a pharchu cymeriad hanesyddol wrth wneud unrhyw waith adnewyddu." Mae'n bwysig bod yr angen am y gwaith wedi'i gyfiawnhau'n llwyr a bod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei darparu i alluogi'r sawl sy'n penderfynu asesu effeithiau'r gwaith ar arwyddocâd yr adeilad. Mae'n rhaid i ansawdd y dyluniad a'r gwaith arfaethedig ychwanegu gwerth. Dylai fod modd gwrthdroi'r newidiadau arfaethedig neu ni ddylent niweidio unrhyw atebion amgen yn y dyfodol.[2]

*Cefndir a Manteision y Cynnig*

8. Cafodd yr egwyddor o addasu'r capel a'i ddychwelyd at ddefnydd buddiol ei groesawu gan y Cyngor, Cadw a phreswylwyr cyfagos. Mae'r adeilad yn dangos rhai arwyddion o ddirywio ond mae'n parhau'n gyflawn i raddau helaeth. Mae'r wybodaeth ategol yn dweud bod yr apelydd, sy'n gerddor enwog yn rhyngwladol, yn hanu o'r pentref yn wreiddiol ac mae'n dymuno creu annedd a stiwdio ar gyfer addysgu a hyfforddi. Mae'r

[1] Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Cadw 2017
[2] Egwyddorion Cadwraeth, Cadw (2011)

adeilad yn cynnig yr acwsteg gywir ar gyfer hyn, a byddai'r cynnig yn dod ag ef yn ôl i ddefnydd buddiol ac yn atal dirywio pellach. Mae sicrhau goroesiad hirdymor adeiladau rhestredig yn ystyriaeth bwysig iawn mewn canllawiau a pholisi. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys rhannu'r capel yn ddau gyda stiwdio gerdd a gwagle ar un ochr, a'r llety preswyl dros ddau lawr ar y llall. Cynigir estyniad 3 llawr i'r talcen yn ymyl yr afon, a dangosir manylion y deunyddiau arfaethedig ar y cynlluniau.

*Effaith y Cynnig ar yr Adeilad Rhestredig*

9. Byddai'r estyniad bron mor uchel â brig to'r capel a byddai'n uwch o lawer na'r hen stabl a cherbyty (sydd bellach yn storfa) i'r talcen gyferbyn. Byddai llawer o'r waliau ochr a chefn yn cynnwys ffenestri mawr. Er y byddai rhan isaf y wedd flaen yn cydweddu â'r capel, byddai'r ail lawr wedi'i orchuddio â llechi. Byddai ei uchder, ei ffurf a'i fanylion yn ymddangos yn llethol a byddai'n anghyson â chymeriad yr adeilad presennol. Byddai'r cynnig yn groes i ganllawiau Cadw yn 'Capeli yng Nghymru, Cadwraeth a Thrawsnewid' (1999) sy'n datgan 'dylid gwneud cyn lleied o ychwanegiadau neu estyniadau i'r adeilad presennol ag y bo'n bosibl. Dylid eu lleoli'n ofalus mewn perthynas â'r adeilad gwreiddiol a dylent fod ar yr un raddfa.' Daeth Cadw i'r casgliad nad oes unrhyw berthynas rhwng dyluniad cywrain a chystadleuol yr estyniad a chymeriad syml a chynnil y capel. Yn gyffredinol, rwyf o'r farn na fyddai'r estyniad arfaethedig yn cyd-fynd â ffurf syml y capel rhestredig. Ni fyddai'n diogelu'r adeilad na'i leoliad.

10. Byddai'r cynnig yn cadw gweddau blaen a chefn y capel heb eu newid i raddau helaeth, ac mae honno'n agwedd gadarnhaol bwysig. Mae dyluniad manwl y cynllun o ran y gosodiad mewnol a'r effaith ar nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn bwysig hefyd. Bydd newid defnydd bron bob amser yn arwain at golli ffurf, ffabrig neu fanylion hanesyddol, fel ffitiadau mewnol, ond dylid sicrhau bod cyn lleied o'r nodweddion hyn â phosibl yn cael eu colli er mwyn sicrhau bod y defnydd gwreiddiol yn amlwg o hyd[3].

11. Rwyf yn cytuno gyda'r apelydd na fyddai modd addasu'r adeilad a chadw'r holl seddau caeedig. Fodd bynnag, dylid asesu arwyddocâd y ffitiadau mewnol yn briodol. Mae'n ymddangos mai'r ymagwedd fu trin yr adeilad fel cragen wag. Nid oes unrhyw asesiad cynhwysfawr wedi'i gynnal o'r nodweddion mewnol gan arwain at ddyluniad sy'n adlewyrchu ystyriaeth briodol ohonynt a'u harwyddocâd i'r adeilad rhestredig. Y cyfan y mae'r cynlluniau diwygiedig yn ei wneud yw cadw rhai seddi a chynnig ail-leoli rhan o'r pulpud o'i safle canolog mewn ymgais i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

12. Mae Cadw a'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai rhannu'r adeilad yn ddau i greu'r stiwdio a llety preswyl yn effeithio'n niweidiol ar ei gymesuredd. Byddai'r llety preswyl dros ddau lawr. Nodaf y byddai uchder llawn yr adeilad yn cael ei gadw yn y stiwdio, a bod llawr cyntaf yr annedd yn gynllun agored ac mae holl nenfydau'r capel i'w cadw erbyn hyn. Byddai gor-ddatblygu hanner yr adeilad i ddarparu'r llety a'r gofod byw yn achosi anghydbwysedd y tu mewn i'r adeilad ar draul ei gymeriad. Byddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at golli ffurf fewnol a chymesuredd y capel. Nid yw'r ffaith y gellid gwrthdroi'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â'u heffaith niweidiol ar yr adeilad rhestredig i'r dyfodol.

13. Byddai agoriadau newydd o'r capel i ddarparu drysau i mewn i'r estyniad a'r hen storfa yn arwain at golli ffabrig ac agoriadau ffenestri i'r gweddau ochr. Nid yw'n glir o'r trychluniau sut fyddai'r lloriau newydd yn cael eu cynnal na sut fyddant yn croestorri

[3] Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Cadw (2017)

ag agoriadau'r ffenestri presennol. Mae leinin sych i'w osod gyda phlastrfwrdd wedi'i inswleiddio ar waliau mewnol y capel. Mae Cadw yn mynegi pryder nad oes unrhyw fanylion wedi'u darparu am y fanyleb, yn nodi cysylltiadau gyda ffenestri a drysau presennol, na'r effeithiau ar blastr presennol a gorffeniadau waliau eraill. Gallai defnyddio leinin sych ar y waliau fod yn niweidiol i'r nodweddion mewnol a gallu'r adeilad i anadlu. Nid oes unrhyw asesiad wedi'i gynnal o'r effeithiau tebygol ar allu'r ffabrig hanesyddol i anadlu. Mae ystyriaethau pwysig yn ymwneud ag effeithiau niweidiol posibl ar ffabrig a hyfywedd hirdymor yr adeilad rhestredig.

*Materion Eraill*

14. Mae'r apelydd yn nodi bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi oedi rhag gwneud penderfyniad ar y caniatâd adeilad rhestredig am 5 mlynedd ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi. Nid yw'r ffaith fod caniatâd cynllunio yn cael ei roi yn golygu na ddylid ystyried yr effaith ar yr adeilad rhestredig ar wahân ac yn briodol. Ceir dyletswydd statudol i dalu sylw arbennig i nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. Mae'r asesiad hwn yn hollol wahanol i roi ystyriaeth i gais cynllunio.

15. Mae'r apelydd yn cyfeirio at gamweinyddu honedig ar ran y Cyngor. Nid yw materion o'r fath o fewn cylch gwaith apêl gynllunio a'r Ombwdsmon sy'n ymdrin â'r rheiny. Mae Cadw wedi gwneud sylwadau ar yr apêl a'r cais yn ei rôl fel cynghorydd statudol ar faterion treftadaeth. Mae Cadw wedi mynegi pryderon yn gyson ynglŷn â'r cynnig, ni waeth pa swyddog oedd yn gysylltiedig. Nid oes sail i sylwadau'r apelydd fod barn bersonol wrthnysig un swyddog, a diffyg gwerthfawrogiad o egwyddorion cadwraeth, wedi dylanwadu ar yr ymatebion ymgynghori. Nodaf sylwadau'r asiant ar anaddasrwydd yr awgrymiadau a roddwyd gerbron gan swyddog Cadw mewn cyfarfod ar y safle. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ystyried y cynllun sy'n destun yr apêl hon.

**Casgliad**

16. Am y rhesymau a roddwyd uchod, deuaf i'r casgliad y byddai'r gwaith arfaethedig yn methu diogelu'r adeilad rhestredig na'i osodiad na'i nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac nid yw felly'n cydymffurfio â'r prawf statudol yn Adran 16 (2) Deddf 1990. Rwyf wedi ystyried buddion y cynnig a'r dystiolaeth arall o gefnogaeth gan drigolion lleol. Nid yw'r ystyriaethau hyn yn gorbwyso'r niwed sydd wedi'i nodi, a gwrthodaf yr apêl felly.

17. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwyf wedi ystyried cyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru Pennod 6 ar Leoedd Nodedig a Naturiol a'r modd y mae lleoedd nodedig a naturiol yn cyfrannu at saith nod y Ddeddf. Rwyf o'r farn fod y penderfyniad hwn yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf drwy ei gyfraniad tuag at amcanion llesiant diwygiedig Gweinidogion Cymru i adeiladu cymunedau ac amgylcheddau iachach, mwy cydnerth.

*A L McCooey*

**Arolygydd**